# Ymchwil a Datblygu

sylfaen i bolisi ac ymarfer mewn addysg oedolion






## ESOL yng Nghymru: Dysgu oddi wrth y Sector Gwirfoddol

Cerys Furlong & Julian Hunt

09/02
Mawrth 2009

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

niace
dysgu cymru
promoting adult learning
hyrwyddo addysg oedolion

**<u>ESOL YNG NGHYMRU: DYSGU ODDI WRTH Y SECTOR GWIRFODDOL</u>**

***Cynnwys***


**Crynodeb**

**1. Cyflwyniad**

**2. Methodoleg**

**3. Cefndir**

3.1 ESOL yn y DU

3.2 ESOL yng Nghymru

**4. Gwerth ESOL a Dysgwyr ESOL**

4.1 Gwerth ESOL

4.2 Pwy ydy Dysgwyr ESOL?

**5. Cyd-destun: Y Sialensau sydd yn wynebu ESOL**

5.1 Y cynnydd yn y galw am ESOL

5.2 Cyllido Annigonol

5.3 Mae Ansawdd ESOL yn Amrywiol

5.4 Cyd-destun Dysgu

5.5 Staffio: Recriwtio a Hyfforddi

**6. Dadansoddiad o Astudiaeth Achos**

6.1 ESOL Ffurfiol: Partneriaeth Dysgu Abertawe, Canolfan Gelfyddydau a Dysgu'r Ddraig

6.2 ESOL Anffurfiol: Canolfan Datblygu a Chymunedol De Glanyrafon, Race Equality First a TUC Cymru

6.3 ESOL Sgwrsio: Grŵp Cefnogi Ceiswyr Lloches Bae Abertawe a Chanolfan Bwyleg Llanelli

6.4 ESOL yn Gynwysedig: Y Parade Caerdydd a Chanolfan Datblygu a Chymunedol De Glanyrafon – ESOL ar gyfer Beichiogrwydd

6.5 Datblygiadau yn y Dyfodol: ESOL a Dysgu Teulu Cyfochrog

**7. Casgliadau ac Argymhellion**

**Llyfryddiaeth**

**Atodiad 1: Holiadur**

**Atodiad 2: Rhestr o Gyrff a gymrodd ran mewn digwyddiadau grwpiau ffocws**

**CRYNODEB**

Roedd yr astudiaeth hon yn ymchwilio i ymagweddau arloesol ac effeithiol a ddefnyddir gan y sector gwirfoddol i gyflwyno ESOL i gyrraedd grwpiau ac unigolion wedi'u heithrio ac ar yr ymylon. Roedd y methodoleg a ddefnyddiwyd yn cynnwys adolygiad llenyddiaeth a chasglu data helaeth trwy gyfrwng cyfweliadau, grwpiau ffocws a holiadur. Cyflwynir dadansoddiad o'r data hwn yng nghyd-destun polisi Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru ac mae'n rhoi ystyriaeth neilltuol i drefniadau cynllunio a chyllido yng Nghymru.

Dengys yr astudiaeth bod gan ESOL effaith eang, er enghraifft: ar ddyheadau unigolion; gwell iechyd; rhagor o fynediad i wasanaethau; mwy o gyfleoedd i gymryd rhan yn ddinesig, yn ddemocrataidd ac yn gymunedol. Mae gallu dinesydd i siarad Saesneg yn rhan hanfodol o ddyfodol Cymru a dylai fod o'r pwys mwyaf o ran polisi yn gysylltiedig ag addysg a sgiliau a hefyd o ran yr agendau polisi yn gysylltiedig â chyfiawnder troseddol, cydlyniant cymdeithasol a chymunedol, dinasyddiaeth ac adfywiad economaidd a chymdeithasol. Yn fyr, rhaid i ESOL fod yn flaenoriaeth i Gymru.

Mae'r astudiaeth hon hefyd yn dangos amrywiaeth dysgwyr ESOL: mewn cymunedau sefydledig; ffoaduriaid a cheiswyr lloches; gweithwyr mudol a'u partneriaid a'u gŵyr a'u gwragedd. Mae'r galw am ESOL yn amrywio dros gyfnod o amser ymysg yr holl grwpiau hyn a rhaid i gyrff sydd yn darparu ESOL a chefnogaeth arall ymateb i hynny.

Daeth nifer o sialensau mawr sydd yn wynebu cyrff sydd yn cyflwyno ESOL yng Nghymru i'r amlwg yn yr astudiaeth hon: mae'r galw am ESOL yn fwy na'r cyflenwad; nid oes cyllid digonol; nid yw cyd-destun y dysgu bob amser yn cyd-fynd gyda galw'r dysgwyr; mae ansawdd y cyflwyno yn amrywiol ac mewn sawl ardal mae anawsterau sylweddol o ran recriwtio a hyfforddi tiwtoriaid ac athrawon ESOL.

Datgelodd dadansoddiad astudiaeth achos yr amrywiaeth o ESOL  a gynigir gan gyrff y sector gwirfoddol: ESOL ffurfiol; ESOL anffurfiol; ESOL sgwrsio ac ESOL yn gynwysedig. Gellir dysgu nifer o wersi oddi wrth ymarfer da yn y sector gwirfoddol ar

bynciau yn cynnwys: gweithio mewn partneriaeth; gwaith datblygu ac allgymorth gyda chymunedau; ESOL yn gynwysedig a dysgu anffurfiol; y defnydd o dechnoleg; a manteision i gyrff sydd yn cefnogi gwirfoddolwyr.

Daw'r adroddiad i ben gyda nifer o argymhellion i Lywodraeth y Cynulliad ar ystod o bynciau yn cynnwys: gwneud y mwyaf o effaith ESOL; cyllido; cefnogaeth; a hyfforddiant a datblygiad staff.

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r nifer o unigolion sydd angen Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig gyda'r cynnydd mewn gweithwyr mudol (Ystadegau i Gymru, 2007). Mae hyn wedi effeithio yn fawr iawn ar y galw am ESOL, a gydnabyddir yn eang fel rhywbeth sydd yn gymorth i unigolion ymgartrefu yng Nghymru, cyfrannu at gydlyniant cymunedol a chynyddu sgiliau ehangach unigolion (Estyn, 2008).

Daw unigolion i Gymru am amrywiol resymau, boed i astudio, i weithio, neu i chwilio am loches neu noddfa. Yn aml bydd gan weithwyr mudol, ceiswyr lloches neu ffoaduriaid gydag ychydig neu ddim Saesneg set gymhleth o anghenion a rhwystrau i gael gafael ar ddarpariaeth ESOL. Gallai hyn er enghraifft gynnwys diffyg arian, diffyg amser, traddodiadau diwylliannol a diffyg hyder (NIACE, 2008).

Dengys gwaith a wnaethpwyd trwy rwydwaith RAMOD (o ddarparwyr yn gweithio gyda dysgwyr du a lleiafrifoedd ethnig, wedi'i hwyluso gan NIACE Dysgu Cymru (NDC)) bod dysgwyr yn awyddus i gymryd rhan mewn dysgu sydd wedi'i leoli yn y gymuned (NIACE, 2008) a chredir bod llawer o'r dulliau arloesol ac effeithiol o weithio gydag unigolion a grwpiau sydd ar yr ymylon ac wedi'u heithrio (sydd yn defnyddio ESOL) yn digwydd yn y sector gwirfoddol.

Comisiynwyd NDC gan Lywodraeth y Cynulliad i gynnal y prosiect ymchwil hwn ar ESOL a'r sector gwirfoddol. Roedd yr ymchwil yn ceisio nodi ac ymchwilio i'r ymagweddau effeithiol ac arloesol a ddefnyddir yn y sector gwirfoddol i gynnwys yr unigolion sydd fwyaf ar yr ymylon ac sydd wedi'u heithrio fwyaf ac sydd yn defnyddio ESOL yng Nghymru. Caiff canfyddiadau'r ymchwil eu rhannu i ddarparwyr yn y gred y gallant ddysgu oddi wrth y sector gwirfoddol.

## 2. METHODOLEG

Y technegau ymchwil  a ddefnyddiwyd ar gyfer canran fwyaf yr astudiaeth hon oedd cyfweliadau grwpiau ffocws a chyfweliadau unigol wedi'u lled-strwythuro a cheir manylion amdanynt isod.

***Adolygiad o Lenyddiaeth:***

Ar gyfer yr adolygiad o'r llenyddiaeth, y cam cyntaf oedd chwilio am ymchwil oedd wedi casglu data am rai agweddau o ESOL a darpariaeth ESOL. Cyfyngwyd yr adolygiad yn bennaf i astudiaethau yn y sector gwirfoddol ond nid i unrhyw genedl wladwriaeth neilltuol. Cynhaliwyd yr ymchwil rhyngrwyd gair allweddol trwy ddefnyddio'r rhesymeg Boolean[2]. Archwiliwyd haniaethau a chrynodebau dyfyniadau perthnasol potensial i benderfynu ar berthnasedd yr ymchwil gwreiddiol. Yna cafwyd testunau llawn (ffeiliau PDF oedd y dewis gorau) o'r holl erthyglau perthnasol. Hefyd archwiliwyd llyfryddiaeth a chyfeiriadau eilaidd o'r erthyglau a gafwyd ar gyfer unrhyw astudiaethau ychwanegol. Cynhaliwyd yr adolygiad trwy ddefnyddio meini prawf penodol ac yna crëwyd tabl crynodeb o ganlyniadau'r adolygiad.

***Casglu Data:***

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig yn bennaf ar gyfweliadau unigol a chyfweliadau grwpiau ffocws gydag amrediad o ddarparwyr ESOL yng Nghymru, ond casglwyd data hefyd o holiadur a anfonwyd at ddarparwyr (Atodiad 1). Casglwyd data trwy ddefnyddio cyfweliadau lled-strwythuredig a grwpiau ffocws, yr ategwyd atynt gyda data arsylwadol o ddosbarthiadau ESOL, cyfarfodydd a sgyrsiau anffurfiol gyda darparwyr ESOL a dysgwyr ESOL.

Cynhaliwyd cyfanswm o ddau grŵp ffocws a saith cyfweliad manwl lled-strwythuredig. Gwahoddwyd amrediad eang o ddarparwyr ESOL i fynychu'r digwyddiadau grŵp ffocws. Trefnwyd ymweliadau a chyfweliadau astudiaeth achos i ddilyn y cyfweliadau grŵp ffocws. Detholwyd cyrff unigol yn bwrpasol i fod yn gynrychioliadol o'r gwahanol ffurfiau o ddarpariaeth ESOL a nodwyd yn y dadansoddiad o'r cyfweliadau grŵp ffocws.

---

[2] Mae'r rhesymeg Boolean yn system gyflawn ar gyfer gweithrediadau rhesymegol ac mae'n cyfeirio at y berthynas resymegol ymysg termau chwilio. Caiff llawer o chwilio cronfa ddata ei wneud ar sail y rhesymeg Boolean.

Cynhaliwyd yr holl gyfweliadau a'r grwpiau ffocws rhwng Rhagfyr 2008 a Chwefror 2009. Cynhaliwyd y digwyddiadau grŵp ffocws yng Ngholeg Iâl, Wrecsam a Neuadd y Ddinas, Caerdydd. Mae rhestr llawn o'r cyrff a gymrodd ran yn y digwyddiadau hyn ar gael yn Atodiad 1. Cynhaliwyd y cyfweliadau unigol yn lleoliadau'r astudiaeth achos (Prifysgol Abertawe, Canolfan Datblygu a Chymunedol De Glanyrafon, Canolfan Gelfyddydau'r Ddraig a'r Ganolfan Bwyleg). Cynhaliwyd cyfweliadau unigol hefyd gyda thiwtoriaid ESOL yn Race Equality First a Grŵp Cefnogi Ceiswyr Lloches Bae Abertawe (SBASSG). Cynhaliwyd y cyfweliadau hyn yn swyddfa Race Equality First yng Nghaerdydd ac yn nosbarth sgwrsio SBASSG yn Abertawe.

Roedd y cyfweliadau a'r grwpiau ffocws yn cael eu harwain gan amserlen gyfweld lled-strwythuredig oedd yn delio â dealltwriaeth y cyfranogwyr o'r gwahanol ffurfiau o ddarpariaeth ESOL, y rhwystrau y mae dysgwyr yn eu wynebu wrth gael gafael ar ddosbarthiadau ESOL a sialensau ac effeithlonrwydd yr ESOL a ddarparant. Roedd pob cyfweliad yn para rhwng 45 a 90 munud. Roedd nodiadau'n cael eu cymryd ym mhob cyfweliad a grŵp ffocws, ac roedd y rhain yn cael eu hysgrifennu'n llawn wedyn.

***Dadansoddiad:***

Cynhaliwyd dadansoddiad thematig o'r data. Darllenwyd trawsysgrifau unigol dro ar ôl tro gan roi côd iddynt i nodi themâu amlwg. Yna roedd y trawsysgrifau'n cael eu hail ddarllen i nodi themâu oedd yn codi dro ar ôl tro a themâu mwy ffocysedig. Roedd dilysu atebol, ar ffurf adborth, yn cael ei ddefnyddio i wirio a oedd y dadansoddiad a'r dehongliad o'r data yn gynrychioliad gwirioneddol o farn a meddyliau'r cyfranogwyr. Trwy gydol y broses o ddadansoddi ac yn benodol y broses o ddehongli data, cynhaliwyd dadansoddiad llym ac ymatblygol.

## 3. CEFNDIR

Amcangyfrifir bod tua 175 miliwn o bobl yn byw y tu allan i'w gwlad enedigol yn y flwyddyn 2000, gan olygu bod un o bob 35 o bobl yn y byd yn fewnfudwr rhyngwladol (IOM, 2005:379). Roedd ychydig dros 50 y cant o'r mewnfudwyr hyn yn economaidd weithgar, ac roedd y mwyafrif yn byw mewn cenhedloedd diwydiannol – yn bennaf yn yr Unol Daleithiau, Canada, yr Eidal, Ffrainc, yr Almaen a'r Deyrnas Unedig (ILO, 2004). Roedd y llifoedd mudo hyn yn cynnwys y bobl oedd yn symud yn bennaf o'r De Byd-Eang, yn ogystal â symudiad cynyddol o wledydd Canol a Dwyrain Ewrop i Ogledd Ewrop, yn enwedig o Aelod Wladwriaethau newydd yr Undeb Ewropeaidd (A8) yn dilyn ehangu'r UE yn 2004 (Portes & French, 2005). Felly tra bod gweithwyr mudol wedi bod yn nodweddiadol o economi byd-eang gweithredol am sawl canrif, maent bellach yn bresenoldeb cynyddol, yn enwedig yn economïau Gogledd Lloegr ddiwydiannol.

Ar y cyfan mae achosion gwaelodol mudo yn hynod o gymhleth ac amrywiol yn amrywio o ffactorau unigol, teuluol i facro-strwythurol. Yn ymarferol mae pobl yn symud am nifer o resymau penodol fel gwrthdaro gwleidyddol, gormes, tlodi, newyn, yr ymchwil am welliant economaidd ac/neu addysgol ac ymrwymiadau teulu. Ond dro ar ôl tro mae astudiaethau empeiraidd wedi darganfod mai ffactorau economaidd, mewn amrywiol ffurfiau, yw'r prif ystyriaethau i fewnfudwyr er bod y pryderon hyn yn cymysgu gyda rhyw, hil a dosbarth wrth i fewnfudwyr drafod eu hunaniaeth yn y cyd-destun y maent yn penderfynu symud ai peidio (Pessar, 2005: Silvey & Lawson, 1999). Felly, yn fwriadol ai peidio, mae nifer o fewnfudwyr yn dod yn weithwyr mudol yn y wlad y maent wedi symud iddi.

Mae mudo wedi bod yn nodwedd ers tro o ddemograffi Cymru a'r DU. Mae mudo yn broses ddeinamig yn hytrach nag yn un statig lle mae parhad a newidiadau. Mewn dinasoedd a threfi ar draws Cymru gellir edrych ar raddfa a natur mudo diweddar i'r DU yn y newid demograffig a diwylliannol sydd yn digwydd. Er enghraifft ym Merthyr Tudful mae'r prosiect adfywio cymunedol GATES Morgannwg yn ddiweddar wedi dechrau cyhoeddi cylchgrawn newyddion cymunedol misol mewn Portiwgaleg a Phwyleg gan fod gweithwyr gwirfoddol o wlad Pwyl a Phortiwgal, gyda chyllid UE, wedi gweithio fel cynorthwywyr dosbarth a chyfieithwyr am nifer o flynyddoedd yn Ysgol Gatholig Bishop Hedley yn y dref. Hefyd datblygodd y Ganolfan Bwyleg yn

Llanelli o'r nifer o weithwyr Pwylaidd oedd yn mynd at yr Undeb Gredyd yn y dref i holi am wybodaeth am eu hawliau fel gweithwyr ac fel dinasyddion. Ffurfiwyd Grŵp Cefnogi Ceiswyr Lloches Bae Abertawe fel grŵp a gododd o'r gymuned yn dilyn cyhoeddiad strategaeth 'gwasgaru' Llywodraeth y DU yn 2000. Yng Ngogledd Cymru mae Partneriaeth Parc Caia am y tair blynedd diwethaf wedi darparu gwasanaeth cynghori ac eiriolaeth i weithwyr newydd o wlad Pwyl sydd yn symud i'r ardal.

Mae'r iaith Saesneg yn un o'r ffactorau lluosog sydd yn effeithio ar les, ffyniant, datblygiad economaidd a setliadau mewnfudwyr (NIACE, 2006). Mae'r gallu i ddefnyddio Saesneg yn cynnig platfform ar gyfer grymuso – mae'n galluogi pobl i gael ymreolaeth a chymryd rheolaeth dros eu bywyd beunyddiol, i gael mwy o ffyniant ac i gymryd rhan yn llawn ac yn effeithiol mewn cymdeithas ddinesig a chymdeithasol. Hefyd mae iddo fanteision cymdeithasol a diwylliannol ehangach yn cynnwys codi dyheadau, gwell iechyd, mwy o fynediad i wasanaethau, mwy o gyfleoedd ar gyfer cyfranogiad dinesig, democrataidd a chymunedol a gweithgarwch cymunedol (O'Leary, 2008; Schuller et al 2004; Ward, 2007; Ward & Spacey, 2008). Awgryma astudiaeth ddiweddar a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Archwilio (2007) bod creu cyfleoedd i weithwyr mudol wella eu Saesneg yn un o'r pethau mwyaf defnyddiol y gall cynghorau, eu partneriaid a'u cyflogwyr ei wneud wrth fynd i'r afael â'r sialensau a wynebir gan newidiadau cyflym yn y boblogaeth.

### 3.1 *ESOL yn y DU*

Nid yw 'ystafell ddosbarth' ESOL yn y DU yn gydryw nac yn sefydlog. Bu nifer o newidiadau o ran polisi ac o ran proffil dysgwyr ESOL. Yn hanesyddol mae polisi tuag at ddarpariaeth ESOL wedi bod yn ddarniog ac wedi'i ynysu oddi wrth ddarpariaeth arall ar gyfer addysg a dysgu oedolion (Hamilton & Merrifield, 2000).

Mae ESOL yn rhan o strategaeth *Sgiliau ar gyfer Bywyd* Llywodraeth y DU i ddiwallu anghenion llythrennedd, rhifedd ac iaith oedolion. Mae'r galw am ESOL wedi cynyddu yn sylweddol ers lansio'r *Sgiliau ar gyfer Bywyd* ym Mawrth 2001. Er gwaethaf y cynnydd mewn cyllid cyffredinol, o £103 miliwn yn 2001-2002 i dros £300 miliwn yn 2007-2008, nid yw'r cyllid a ddyrennir gan Lywodraeth y DU yn ddigonol i ddarparu ESOL am ddim i bawb sydd ei angen. Wrth ystyried ateb i'r dilema hwn penderfyniad Llywodraeth y DU oedd ail flaenoriaethu cyllid cyhoeddus tuag at y

bobl oedd yn cael eu hystyried fwyaf mewn angen ac annog cyfraniadau tuag at gost dysgu o ddysgwyr at gyflogwyr yn hytrach nag ehangu cyllid ESOL.

### 3.2 *ESOL yng Nghymru*

Caiff polisïau sydd yn effeithio ar yr angen am ESOL yng Nghymru eu penderfynu'n bennaf gan Lywodraeth y DU ac mae'r Swyddfa Gartref yn cadw rheolaeth dros faterion mudo a dinasyddiad. Fodd bynnag, Llywodraeth y Cynulliad sydd yn penderfynu ar ddarpariaeth ESOL fel elfen o addysg gydol oes ac mae'n cyllido cyflwyniad hyfforddiant iaith i hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol ar gyfer y rhai nad ydynt yn siarad Saesneg a sicrhau cyfraniad cynhyrchiol ac effeithiol gan weithwyr mudol i economi Cymru.

Yn 2001 dyfarnodd Llywodraeth y Cynulliad gyfrifoldeb i'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol dros reoli Strategaeth Sgiliau Sylfaenol Cenedlaethol Cymru (Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2001). Nod hwn oedd codi cyflawniad mewn rhifedd, darllen, ysgrifennu, siarad a deall Saesneg a Chymraeg, ac roedd yn cynnwys ESOL. Ers lansio'r strategaeth yn 2001 mae'r galw am ESOL wedi tyfu'n sylweddol. Yn 2002/2003 ffurfiodd yr Asiantaeth grŵp ymgynghorol ESOL/EAL gyda'r nod o gefnogi datblygiad llinyn ESOL/EAL o'r Strategaeth Genedlaethol. Roedd y ffocws, yn ystod y cyfnod cychwynnol, ar gefnogi rhaglenni ESOL i gyflawni'r Nod Ansawdd ôl 16 oed, hyfforddiant a datblygu rhaglenni Lefelau 2 a 3 ar gyfer staff cefnogi addysg oedolion ac ar gyfer staff oedd yn cyflwyno ESOL, datblygu rhaglenni iaith teulu, gweithio gyda cheiswyr lloches a chynhyrchu adnoddau addysgu a dysgu.

Yn 2007, unodd Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol Cymru gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ac mae Sgiliau Sylfaenol Cymru bellach yn ran o'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS). Yn 2008 sefydlodd Sgiliau Sylfaenol Cymru grŵp datblygu ESOL i gynghori APADGOS ar ESOL.

Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) yw prif ffynhonnell cyllido ESOL yng Nghymru; yn 2006/07 gwariwyd tua £8m ar ESOL a chyfrannodd APADGOS tua £5m (GHK 2008). Mae cyllidwyr eraill yn cynnwys y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd (ESF) a'r Loteri Fawr. Dim ond canran fechan o'r

cyfanswm a ddaw o ffioedd myfyrwyr a chyfraniadau cyflogwyr (11 y cant a 4 y cant fel ei gilydd).

## 4. GWERTH ESOL A DYSGWYR ESOL

### 4.1*Gwerth ESOL*

Mae gallu dinasyddion i siarad Saesneg yn rhan hanfodol o ddyfodol Cymru ac fel yr awgryma'r adroddiad hwn mae ESOL yn bwnc o bwysigrwydd mawr, nid yn unig o ran polisi yng nghyswllt addysg a sgiliau ond hefyd o ran agendâu polisi llawer ehangach yng nghyswllt materion cyfiawnder cymdeithasol, cydlyniant cymdeithasol a chymunedol, dinasyddiaeth ac adfywiad economaidd a chymdeithasol.

Roedd adroddiad Pwyllgor Ymchwiliad NIACE ar Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (NIACE 2006) yn cynnig diffiniad 'eang a chynhwysol' o ESOL fel 'darpariaeth Saesneg i siaradwyr oedolion ieithoedd eraill'. Mae'r diffiniad hwn meddent yn cwmpasu'r ffaith bod rhaid i ESOL ddiwallu anghenion dysgwyr amrywiol sydd eisiau'r iaith Saesneg am wahanol ddibenion ac ar wahanol lefelau (NIACE 2006:19). Ond mae ESOL yn fwy nag iaith yn unig. Dysgu'r iaith Saesneg yw prif bwrpas ESOL ac mae ESOL yn rhannu nifer o nodweddion dysgu ieithoedd eraill. Ond yr hyn sydd yn gwneud ESOL yn wahanol yw bod dysgwyr ESOL yn astudio Saesneg fel dull o'i gwneud hi'n bosibl iddynt fyw a gweithio yng Nghymru ac felly cael rheolaeth dros eu bywydau. Mae iaith yn fwy na set o sgiliau wedi'u diffinio'n glir ac mae'n gysylltiedig yn benodol gyda gwahanol gyd-destunau diwylliannol, cymdeithasol a chyfathrebiadol y caiff ei defnyddio ynddynt. Felly mae angen integreiddio datblygiad y sgiliau ieithyddol technegol angenrheidiol o fewn dealltwriaeth o strwythurau, diwylliannau a sefydliadau cymdeithas, a'r dulliau o weithredu a chyfathrebu oddi mewn iddynt (NIACE, 2006).

Mae llu o astudiaethau[2] yn adrodd ar werth ESOL i gyfleoedd bywyd dysgwyr unigol a'u teuluoedd, a'r cyfraniad a wnânt i fywyd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol y genedl. Mae'r gallu i siarad Saesneg yn grymuso pobl i gymryd rheolaeth dros eu bywydau; mae'n galluogi pobl i gael gwaith a chyflawni datblygiad yn y gwaith; mae'n cynorthwyo pobl i gyfathrebu a rhyngweithio gyda'i gilydd yn eu cymunedau ac mae'n cefnogi rhieni i wella cyfleoedd bywyd eu plant.

[2] Gweler er enghraifft: NIACE 2006; O'Leary, 2008; Ward, 2007; Barton &Pitt, 2003; GHK, 2008; Comisiwn ar Integreiddio a Chydlyniant, 2007; TUC, 2007; McKAY, Craw & Chopra, 2006

Felly mae rhesymeg gref o blaid buddsoddi yn ESOL a gwneud dysgu'r iaith Saesneg yn flaenoriaeth ar gyfer polisi yng Nghymru. Ond mae gwerth ESOL fodd bynnag yn mynd hyd yn oed ymhellach gan ei fod yn ganolog i gyfleoedd bywyd dysgwyr unigol ac mae hefyd yn allwedd i amrediad eang o faterion polisi (NIACE 2006). Mae sgiliau sylfaenol gwael yn uniongyrchol gysylltiedig gydag anfantais cymdeithasol ac economaidd, lefelau uchel o ddiweithdra neu gyflogaeth sgiliau isel, tangyflawniad addysgol rhyng genedlaethau, lefelau uchel o drosedd, iechyd gwael, tai gwael a lefelau isel o gyfranogiad mewn cymdeithas ddinesig (Moser, 1999). I ddysgwyr ESOL mae'r materion hyn yn llawer rhy aml yn cael eu dwysau gan eu profiad o hiliaeth a gwahaniaethu. Mae adroddiad diweddar gan yr Uned Eithrio Cymdeithasol (ODPM 2005) yn dangos bod lefelau digonol o lythrennedd, rhifedd ac iaith ac yn enwedig llythrennedd yn hanfodol i gyflwyniad effeithiol gwasanaethau cyhoeddus i adrannau mwyaf difreintiedig cymdeithas.

Wrth edrych ar lythrennedd, iaith a rhifedd mae adroddiadau Moser (1999) a'r Uned Eithrio Cymdeithasol (ODPM 2005) yn gosod pwyslais neilltuol ar lythrennedd a rhifedd. Ond mae nifer o'r casgliadau yn berthnasol i ddysgwyr ESOL lle y mae materion addysg ac iechyd, gwaith, mewnfudo, setlo, integreiddio, dinasyddiaeth, adnewyddu cymdogaeth, brwydro yn erbyn hiliaeth a chydlyniant cymunedol yn hynod o berthnasol, ond ar hyn o bryd prin iawn y cant eu hystyried mewn perthynas â dysgu (NIACE, 2006).

Mae ymchwiliad NIACE i ESOL (2006) yn amlygu'r modd y mae meysydd sydd yn ymddangos o ran polisi a chyflwyniad gwasanaethau yn wahanol, mewn gwirionedd 'wedi'u cysylltu'n agos'; yn enwedig ym mywydau a phrofiadau defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r adroddiad yn cyflwyno pwysigrwydd neilltuol ar gyfer polisi a chyflwyniad. Y mater i lunwyr polisi yw cydnabod y ffyrdd y mae sgiliau iaith effeithiol yn rhagamod i lwyddiant mewn nifer o feysydd polisi allweddol. Y mater i gyllidwyr a darparwyr yw sicrhau bod gwasanaethau wedi'u cynllunio, eu cyllido a'u cyflwyno mewn dull clir sydd yn ymateb i'r amrediad llawn o anghenion dysgwyr ESOL. Mae'r adroddiad yn nodi bod hyn yn mynd y tu hwnt i gyfuno'r cwricwlwm gydag anghenion ehangach dysgu er y gall hyn fod yn strategaeth effeithiol.

Yn hytrach mae'n fater o gyfuno datblygiad polisi, cynllunio a ffrydiau cyllido ar gyfer dysgu a chyflwyno ESOL gyda rhaglenni cyrff eraill sydd yn delio gyda dysgwyr ESOL. Y nod yw darparu gwasanaethau y mae'r defnyddwyr eu hunain yn eu profi fel rhai sydd yn gydgysylltiedig ac yn cyd atgyfnerthu (NIACE 2006:17).

**4.2 *Pwy ydy Dysgwyr ESOL?***

Mae gwybod pwy ydy'r dysgwyr a deall beth y maent eisiau ei ddysgu yn hanfodol i unrhyw drafodaeth am ESOL. Mae adroddiad diweddar gan Estyn yn nodi bod dysgwyr ESOL yng Nghymru yn grŵp amrywiol iawn.

'*Mae eu sgiliau a'u gallu yn yr iaith Saesneg yn amrywio'n fawr. Mae eu rhesymau dros fod eisiau dysgu Saesneg yr un mor amrywiol. Maent yn mynd i ddosbarthiadau ESOL mewn colegau addysg bellach, darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned, yn y gweithle ac mewn nifer fechan o ddarpariaeth sector gwirfoddol'. (*Estyn 2008).

Yn ddiweddar mae proffil dysgwyr ESOL wedi bod yn gymysglyd. Yn 2000 nododd *Breaking the Language Barrier (*Adran Addysg a Chyflogaeth 2000*)* bedwar categori bras o ddysgwyr:

- Cymunedau sefydledig
- Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches
- Gweithwyr Mudol
- Partneriaid a Gŵyr a Gwragedd Myfyrwyr sydd wedi setlo (ac sydd angen cymryd rhan yn y gymuned leol ond sydd yn cael eu hatal gan gyfrifoldebau teuluol neu incwm isel rhag dilyn cyrsiau ESOL).

Roedd yr adroddiad yn cydnabod bod anghenion dysgwyr o fewn y grwpiadau eang hyn yn amrywio'n fawr yn dibynnu ar nifer o ffactorau oedd yn cynnwys eu dyheadau, cefndir addysgol, iaith a chefndir llythrennedd a gallu i ddysgu ieithoedd (Adran Addysg a Chyflogaeth 2000:9). Mae'r pedwar grŵp hwn yn parhau yn grwpiau cleient craidd.

Ers cyhoeddi *Breaking the Language Barrier* (Adran Addysg a Chyflogaeth 2000) mae newidiadau demograffig wedi newid proffil galw dysgwyr. Yn arbennig bu cynnydd yn y blynyddoedd diweddar yn y nifer o ddysgwyr o'r UE, yn fwyaf penodol, gweithwyr mudol o wledydd yr A8. Mae nifer o ganlyniadau pwysig i'r newidiadau hyn o ran galw a'r effaith ar natur darpariaeth ESOL (NIACE 2006). Gydag ychydig o eithriadau mae dysgwyr sydd yn mynychu dosbarthiadau ESOL wedi dod hyd yn oed yn fwy gydrywiol gyda chefndiroedd diwylliannol a hanes addysgol, dyheadau ac anghenion dysgu amrywiol.

Mae galw sylweddol o hyd am ESOL ymysg cymunedau sefydlog. Mae dysgwyr yn y cymunedau hyn yn cynnwys mewnfudwyr sydd wedi hen ymgartrefu yn ogystal â rhai sydd wedi cyrraedd yn fwy diweddar a ffoaduriaid.[3] Mae nifer o breswylwyr sefydlog eisiau gwella eu Saesneg nifer o flynyddoedd ar ôl iddynt gyrraedd. Gall fod sawl rheswm dros hyn: ychydig o amser sydd gan nifer yn ystod bywydau gweithio prysur i fynychu dosbarthiadau, maent wedi dibynnu ar gefnogaeth gan eu teuluoedd a chymunedau ehangach, nid ydynt wedi bod yn ymwybodol o, neu maent wedi bod yn amharod i fanteisio ar gyfleoedd dysgu neu mae costau wedi eu hatal rhag manteisio, diffyg darpariaeth neu gefnogaeth hawdd cael gafael arno fel gofal plant, neu gan aelodau gwrywaidd y teulu. Yn aml nodir cyflogaeth ansicr ac/neu fygythiad o ddiweithdra fel catalydd ar gyfer dysgu iaith ymysg cymunedau sefydlog (Tackey et al 2007); hefyd mae gofynion dinasyddiad newydd yn golygu bod disgwyl i breswylwyr sefydlog ddysgu Saesneg erbyn hyn. Yn nodweddiadol mae'r dysgwyr potensial hyn yn cael anhawster i gael gafael ar ddarpariaeth, ac maent angen gwaith allgymorth i wneud cysylltiad cychwynnol ac yn aml mae'n well ganddynt ddarpariaeth yn y gymuned, sydd yn ddrud ac yn cymryd amser i'w ddarparu.

Mae pryder y bydd y grwpiau hyn o bobl yn cael eu heithrio mewn ardaloedd lle mae dosbarthiadau'n llawn a rhestrau aros hir o ddysgwyr potensial sydd yn haws i'w cyrraedd a'u dysgu. Mae risg pellach y bydd aelodau cymunedau preswyl sydd â phrofiad prin o gyfleoedd addysgol ac sydd heb sgiliau llythrennedd, neu sydd â sgiliau llythrennedd cyfyngedig (yn enwedig menywod) yn amharod i ymuno â dosbarthiadau lle nad yw darpariaeth wedi'i ddylunio i ddiwallu eu hanghenion

[3] Nid oes data cadarn ar gael i nodi canrannau o bob un.

penodol ar gael. Fel y nododd un a gafodd ei holi, gall dysgu ochr yn ochr â rhai sydd newydd gyrraedd gyda lefel uwch o sgiliau llythrennedd eu hatal rhag ymuno.

Mae problemau neilltuol mewn perthynas â ffoaduriaid a cheiswyr lloches.[4] Mae polisi'r llywodraeth o rannu ceiswyr lloches ar draws y DU wedi cynyddu'r pwysau ar ddarparwyr gwasanaeth mewn rhai dinasoedd a threfi yng Nghymru. Yn yr amgylchiadau hyn mae darparwyr ESOL yn gorfod addasu i ddysgwyr nad ydynt yn gyfarwydd gyda'u cefndiroedd. Mae gan ddysgwyr o'r fath fywydau cymhleth, yn cynnwys tlodi, amddifadedd, colli urddas neu obaith. Mae'r holl ffactorau hyn yn effeithio ar eu dysgu. Yn aml mae tiwtoriaid ESOL yn gorfod rhoi cefnogaeth a chymorth gyda'r problemau ehangach hyn ac nid yw pob tiwtor mewn sefyllfa i helpu dysgwyr yn y modd hwn.

Mae ymchwil diweddar (TUC 2008a) yn amlygu'r graddau y mae gweithwyr mudol, mewn rhai amgylchiadau, yn agored i gael eu cam ddefnyddio gan gyflogwyr diegwyddor. Mae Cynghrair yr Undebau Llafur (2003) wedi disgrifio'r amddiffyniad cyfreithiol sydd ar gael i weithwyr o'r fath fel rhywbeth sydd 'yn gwbl annigonol' ac mae natur fregus o'r fath yn cynyddu lle nad oes gan y gweithwyr ddigon o sgiliau iaith Saesneg ac felly yn cael anhawster wrth gael gafael ar systemau allai eu hamddiffyn. Daeth ymchwil diweddar a gomisiynwyd gan y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch i ystyried peryglon iechyd a diogelwch ymysg gweithwyr mudol i'r casgliad bod gweithwyr mudol yn fwy tebygol o fod yn gweithio mewn sectorau neu alwedigaethau lle mae pryderon iechyd a diogelwch eisoes yn bodoli a'u statws fel gweithwyr newydd sydd yn gallu eu rhoi mewn sefyllfa o risg ychwanegol ((McKay, Craw & Chopra 2006:v).

Y rhesymau dros hyn oedd ffactorau yn cynnwys:

- Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol gyda gweithwyr eraill a gydag arolygwyr, yn enwedig mewn perthynas â'u dealltwriaeth o risg;

[4] Yn unol âr ymchwiliad i siaradwyr ieithoedd eraill (NIACE 2006) rydym yn defnyddio'r diffiniadau canlynol. 'Ffoadur' yw person sydd wedi dianc neu sydd yn methu â dychwelyd i'w gwlad enedigol oherwydd 'ofn cadarn o erledigaeth oherwydd hil, crefydd, cenedligrwydd, barn wleidyddol neu aelodaeth o grwp cymdeithasol'. 'Ceisydd lloches' yw person sydd wedi hawlio statws ffoadur ac sydd yn aros am benderfyniad ar eu hawliad

- Mynediad cyfyngedig i hyfforddiant iechyd a diogelwch a'u hanawsterau o ran deall yr hyn sydd yn cael ei gynnig, lle mae gallu mewn Saesneg yn gyfyngedig;
- Methiant cyflogwyr i wirio eu sgiliau ar gyfer gwaith a'u sgiliau iaith; a
- Diffyg gwybodaeth am faterion iechyd a diogelwch a sut i'w codi.

Nododd tystiolaeth a gyflwynwyd i Gomisiwn y TUC ar Gyflogaeth Bregus (CoVE) (TUC 2008a) llu o fanteision potensial ESOL o ran lleihau natur fregus.

- Mae ESOL yn annog rhyngweithio ac integreiddio gyda'r gweithlu a'r gymuned ehangach;
- Cynyddu gallu gweithwyr unigol i ddeall ac i orfodi hawliau cyflogaeth;
- Galluogi gweithwyr i ddeall gwybodaeth ac/neu hyfforddiant iechyd a diogelwch;
- Galluogi gweithwyr i wneud defnydd o sgiliau ac i gael gwaith sydd yn briodol i'w cymwysterau; a
- Galluogi gweithwyr i gymryd rhan mewn dysgu arall ac i ddatblygu yn eu cyflogaeth.

Mae'n amlwg bod y manteision hyn yn cael eu teimlo gan y cyflogwyr, y gymuned ehangach a'r economi yn ogystal â chan yr unigolion. Awgryma ymchwil (NIACE, 2006; TUC, 2008b & 2007) bod nifer o weithwyr mudol angen darpariaeth sydd wedi'i anelu'n benodol at eu sefyllfa waith – sgiliau iaith yn briodol i alwadau eu gwaith, yn cynnwys cyfathrebu a diwylliannau gweithle. Dylai gynnwys materion sydd yn eu wynebu wrth iddynt fyw yn eu cymunedau, cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygu a bod ar gael ar adegau sydd yn gweddu gyda'u horiau gwaith.

Mae'r galw cynyddol hwn wedi codi cwestiynau am sut y dylid talu am anghenion ESOL gweithwyr mudol yr UE ac a ddylent hwy ac/neu eu cyflogwyr dalu rhyw ganran o'r gost.

## 5. Y CYD-DESTUN: Y SIALENSAU SYDD YN WYNEBU ESOL

Mae sawl sialens fawr yn effeithio ar ddarpariaeth addysgu Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (ESOL). Mae'r galw am ddarpariaeth ESOL yn cynyddu'n barhaus. Mae dyfodiad gweithwyr o aelodau newydd yr Undeb Ewropeaidd wedi cynyddu'r galw am ddosbarthiadau ESOL ond mae angen ESOL hefyd ymysg ffoaduriaid a cheiswyr lloches, yn ogystal â galw sylweddol, sydd ar hyn o bryd heb ei ddiwallu, ymysg aelodau cymunedau sefydlog. O ganlyniad i hyn ni fu darpariaeth ESOL erioed mor gymhleth. Er gwaethaf buddsoddi sylweddol yn ESOL nid yw cyllid bob amser wedi'i dargedu'n dda ac mae ansawdd y ddarpariaeth yn 'bryderus o ddarniog', gyda darpariaeth a phriodoldeb yn rhy aml ar lefel sydd yn is-safonol (NIACE 2006). Yng Nghymru mae prinder athrawon cymwysedig ac ar hyn o bryd mae strwythur cymwysterau addysgu ESOL yn aneglur tra bod y Fframwaith Cymwysterau heb ei gadarnhau.

Ym mis Tachwedd 2005, gyda'r 'problemau enfawr' yn wynebu ESOL yn creu 'argyfwng oedd angen sylw ar frys' (Ward, 2007) sefydlodd NIACE Pwyllgor Ymchwilio annibynnol i ymchwilio i ESOL yn Lloegr. Mae'r canfyddiadau, a gyhoeddwyd fel *More Than a Language*… (NIACE 2006) yn cynnig y gorolwg cynhwysfawr cyntaf o bolisi yn berthynol i ESOL ers i'r Adran Addysg a Chyflogaeth gynhyrchu *Breaking the Language Barriers* yn 2000. Daeth yr adroddiad i'r casgliad, er y nifer o enghreifftiau o ddarpariaeth ymatebol ac addysgu a dysgu creadigol, bod sialensau enfawr yn ESOL sydd angen sylw ar frys;

- Mae'r galw yn fwy na'r hyn a gyflenwir;
- Nid oes digon o gyllido;
- Nid yw cyd-destun yn dysgu yn cyd-fynd bob amser gyda galw'r dysgwyr;
- Mae'r ansawdd yn amrywiol; a
- Mewn sawl ardal mae anawsterau mawr o ran recriwtio a hyfforddi athrawon ESOL.

Byddwn nawr yn edrych ar y sialensau hyn yn fanylach, yng nghyd-destun Cymru gan dynnu ar ddata empeiraidd yn deillio o'r astudiaeth hon.

**5.1 *Cynnydd yn y galw am ESOL***

Mae'r galw am ESOL yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn yng Nghymru.[5] Mae'r cynnydd yn y galw gan weithwyr mudol, yn enwedig y rhai o'r gwledydd A8, wedi denu llawer o sylw a chyhoeddusrwydd ac mae yn ddi-os yn sylweddol. Ond dim ond un elfen (er yn elfen gynyddol) o ddysgwyr ESOL yw dysgwyr o'r fath, ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Un canlyniad o'r patrwm newidiol hwn yw bod galw nawr mewn rhai ardaloedd, yn enwedig ardaloedd gwledig gyda nifer o weithwyr mudol A8 amaethyddol, heb unrhyw brofiad blaenorol o alw uchel am ddarpariaeth ESOL ac sydd heb y darparwyr na'r athrawon i ymdopi. Mae hyn yn creu sialens sylweddol i'r sefyllfa gyfredol.[6]

**5.2 *Cyllido Annigonol***

Mae ymchwil a wnaethpwyd gan GHK (2008) yn nodi mai dim ond 44% o anghenion ESOL sydd yn cael eu diwallu ar draws Cymru gyda'r prinder mwyaf yn Ne Cymru.

Ar hyn o bryd daw cyllid ar gyfer ESOL trwy gyfrwng amrediad lluosog o ffynonellau a nifer o wahanol ffrydiau, pob un wedi'i lywodraethu gan wahanol reolau cymhwyso, targedau a gofynion adrodd. Tra bod mwyafrif y ddarpariaeth yn cael ei gyllido gan APADGOS trwy'r System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol ymddengys bod pryderon a dryswch ymysg darparwyr ynglŷn â meini prawf cymhwyso y System. Roedd darparwyr oedd yn rhan o'r prosiect hwn yn neilltuol o bryderus am argaeledd cyllid i unigolion sydd â hawl i aros ond sydd heb fod yn y wlad hon am dair blynedd eto. Roedd pryder hefyd am fynediad unigolion i gefnogaeth, er enghraifft Grant Dysgu'r Cynulliad sydd yn ei gwneud yn ofynnol i unigolion fod yn breswyl yn y DU am dair blynedd cyn gwneud cais. Yn gyffredinol mynegwyd pryderon nad yw cyllid bob amser wedi'i dargedu'n dda.

Mynegodd y rhan fwyaf o'r darparwyr oedd yn rhan o'r prosiect hwn bryder am ddiffyg argaeledd cyllid ar gyfer gofal plant a chludiant ac ystyriwyd y rhain fel y rhwystrau mwyaf i ddysgwyr oedd yn defnyddio ESOL. Cafwyd enghreifftiau arloesol

[5] Fel y crybwyllwyd eisoes, bu cynnydd cyffredinol o 22 y cant yn y nifer o ddysgwyr ESOL yng Nghymru rhwng 2004/05 a 2006/07.

[6] Fodd bynnag, mae'n anodd bod yn fanwl mewn perthynas â dysgwyr A8. Er nad oes ffigurau diweddar ar gael ar gyfer Cymru, awgryma ffigurau diweddar (2004-05) gan LSC mai canran fechan yn unig o gyfanswm ymrestriadau ESOL yn Lloegr yw dysgwyr o'r fath – tua 4.03 y cant. Mae hyn fodd bynnag bron yn sicr yn dan amcangyfrif sylweddol (NIACE)

gan ddarparwyr oedd wedi ceisio goresgyn, neu o leiaf liniaru'r sefyllfa hon, trwy raglenni dysgu teulu er enghraifft, neu grwpiau yn gweithredu systemau 'ffrindiau' i rannu gofal plant fel bod y naill a'r llall yn gallu mynychu dosbarthiadau. Ond roedd yr holl ddarparwyr a gododd y mater hwn yn parhau'n bryderus nad oedd mesurau o'r fath yn mynd i'r afael yn llawn gyda'r broblem ac nad oedd nifer sylweddol o unigolion a hoffai dderbyn ESOL ac a fyddai'n elwa o wneud hynny, yn gwneud hynny.

***Cyfraniadau Cyflogwyr:***

Mae disgwyliad cynyddol oddi wrth lywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru y dylai cyflogwyr ac asiantaethau cyflogwyr fuddsoddi mewn hyfforddiant ar gyfer datblygu eu gweithlu, yn enwedig lle mae hyfforddiant wedi'i deilwra ar gyfer eu hanghenion. Fodd bynnag, ymddengys mai ychydig o dystiolaeth sydd ar gael bod hyn yn digwydd hyd yn hyn. Mewn gwirionedd mae darparwyr yn parhau i adrodd am elyniaeth sylweddol oddi wrth rhai cyflogwyr tuag at gyllido ESOL neu hyd yn oed cefnogi dysgwyr i fynychu dosbarthiadau, trwy er enghraifft gynnig oriau mwy hyblyg.

**5.3 *Mae Ansawdd ESOL yn Amrywiol***

Ym myd ESOL mae ansawdd addysgu a dysgu wedi bod  yn thema gyson a rheolaidd ar draws y DU. Mae ymwybyddiaeth o amrywiadau ESOL o ansawdd da, ochr yn ochr ag ymarfer gwael, wedi bodoli dros y 25 mlynedd diwethaf o leiaf (Rosenburg, 2008). Mae'r ESOL gorau, boed mewn dosbarthiadau iaith ar wahân, cefnogaeth iaith neu yn gynwysedig mewn rhaglenni yn greadigol, ysbrydoledig ac mae'n galluogi dysgwyr i wireddu eu dyheadau (Ward, 2007). Tra bod rhywfaint o ymarfer eithriadol o'r natur hwn wedi digwydd yn y blynyddoedd diweddar (Ofsted 2005 a 2008) mae'r darlun cyffredinol o ESOL ar wahân a sefydlog ac arweinyddiaeth a rheolaeth o ansawdd amrywiol. Mae gwendidau yn y prosesau asesu, rheolaeth arweinyddiaeth a chefnogaeth yn gysylltiedig gydag addysgu sydd yn aml heb ysbrydoliaeth ac sydd yn aneffeithiol (Estyn 2008; GHK 2008).

Mae tystiolaeth o arolygon yn ei gwneud yn amlwg bod dim digon o ESOL yn dda neu yn well a bod gormod o hyd sydd yn annigonol.  Mae'r arolwg diweddaraf o ESOL yng Nghymru yn awgrymu dirywiad yn ansawdd addysgu ac asesu rhwng 2004/05 a 2006/07 (Estyn 2008). Darganfu Estyn bod ansawdd cyffredinol cyrsiau

ESOL wedi dioddef oherwydd cynnydd mewn galw ar brofiadau darparwyr, gyda bron i hanner yr arolygiadau yn amlygu rhywfaint o wendidau yn ansawdd cyflwyniad cyrsiau a nifer yn canfod safonau addysgu gwael.

**5.4 *Cyd-destun Dysgu***

Canfyddiad trawiadol wrth gynnal yr ymchwil hwn fu’r amrywiaeth mawr o fewn ac ar draws poblogaeth dysgwyr ESOL yng Nghymru. Mae’r amrywiaeth hwn i’w weld ar lefel genedlaethol a lleol ac mae’n digwydd nid yn unig yn nhermau gwlad enedigol a chefndir diwylliannol y dysgwr ond hefyd yn nhermau cefndir addysgol a chyflogaeth, sgiliau, hanes bywyd a phrofiadau’r dysgwyr. Mae sbectrwm anghenion a disgwyliadau’r dysgwyr hyn yn anhygoel o eang ac mae amgylchiadau personol (er enghraifft statws priodasol, gofalu, dyletswyddau domestig ac agweddau) yn effeithio ar, ac mewn rhai achosion yn llywodraethu beth, ble a sut y maent eisiau dysgu. Hefyd, dro ar ôl tro, dywedwyd wrthym i ba raddau yr oedd cyfrifoldebau gofal plant yn effeithio ar allu a pharodrwydd menywod i gymryd rhan ac i ddatblygu mewn dysgu a chyflogaeth. Roedd argaeledd, fforddiadwyaeth ac anhyblygrwydd gofal plant, yn enwedig diffyg darpariaeth yn ystod gwyliau ysgol, yn dylanwadu’n drwm, ac mewn rhai achosion yn penderfynu ar gyfranogiad a chynnydd menywod mewn dysgu.

Dywedodd y bobl y buom yn siarad â nhw am sawl rheswm a chymhelliant gwahanol dros fod eisiau dysgu Saesneg. Tra bod dyheadau penodol yn aml yn cael eu mynegi o fewn nodau ac uchelgeisiau cyffredinol, prin iawn oedd yr achosion lle roedd y bobl hyn yn dysgu Saesneg i un diben. Tra bod eu nodau cyffredinol yn aml yn ymwneud â dysgu Saesneg i’r diben o’u helpu i gael/darganfod gwaith cyflogedig neu i wella eu sefyllfa o fewn gwaith cyflogedig, roedd y rhagolygon o well mynediad i wasanaethau a chyfleoedd i gymryd rhan mewn bywyd cymunedol, diwylliannol a gwleidyddol hefyd yn anogaethau pwysig.

Awgryma ymchwil blaenorol (Baynham et al 2007) bod gwahanol gefndiroedd addysgol a sgiliau iaith yr un mor bwysig â ffactorau fel cyfnod o amser yn y DU neu lythrennedd iaith gyntaf o ran cynnydd a chyflawniad. Mae oedolion gydag ychydig o lythrennedd mewn unrhyw iaith a diffyg profiad o sgiliau astudio o addysg ffurfiol blaenorol yn gwneud cynnydd arafach ac maent angen ffurfiau mwy dwys a

gwahanol o gefnogaeth nag unigolion gyda lefelau addysgol a sgiliau llythrennedd uchel mewn ieithoedd eraill. Dysgwyr sydd â chymwysterau addysgol sydd fwyaf tebygol o chwilio am ddarpariaeth sydd yn eu galluogi i wneud cynnydd cyflym. Er gwaethaf hyn fodd bynnag dywedodd darparwyr wrthym yn aml am ddosbarthiadau lefelau cymysg. Mewn dosbarth yr arsylwyd arno yn Abertawe roedd ffisegydd o Iran, gweithiwr mewn bwyty o Bangladesh oedd wedi byw yng Nghymru am dros 25 mlynedd heb unrhyw Saesneg ac a oedd wedi gweithio yn y maes arlwyo erioed, gweithiwr ffatri o Wlad Pwyl, ffoadur o Liberia heb unrhyw brofiad addysgol na gwaith blaenorol a myfyriwr ifanc o Tibet yn dysgu ochr yn ochr â'i gilydd yn yr un dosbarth.

Gall yr amrywiaeth mawr hwn greu grwpiau diddorol gydag adnawdd mewnol cyfoethog a'r potensial ar gyfer cefnogaeth cyfoedion. Fodd bynnag mae pryder hefyd am y graddau y gall ffurfiau presennol darpariaeth ESOL yng Nghymru ddarparu ymateb digonol i anghenion dysgwyr amrywiol mewn ffyrdd sydd yn cymryd i ystyriaeth eu hanes, disgwyliadau ac arddulliau dysgu gwahanol. Mae awduron fel Baynham *et al* (2007) ac Ivanic *et al* (2006) yn nodi sialensau ceisio ymateb i anghenion amrywiol a chymhleth a blaenoriaethau gwahanol unigolion sydd yn dysgu yn yr un grŵp. Daw Baynham *et al* (2007) i'r casgliad ei bod bron yn amhosibl, er ymdrechion gorau athrawon i wahaniaethu dysgu i ddiwallu anghenion gwahanol o fewn eu grwpiau, i fodloni anghenion amrywiol yr holl ddysgwyr o fewn yr un dosbarth.

Os yw Llywodraeth y Cynulliad yn dymuno gosod dysgwyr yng nghanol y prosesau dysgu er mwyn ymateb i'w blaenoriaethau a'u hanghenion dysgu, rhaid cydnabod y sialensau hyn a rhaid ffurfio amrediad o ymatebion cwricwlwm gwahanol a phriodol ac ymarferion pedagogaidd mewn ymateb i hynny.

### 5.5 *Staffio: Recriwtio a Hyfforddi*

Mae arbenigedd athrawon ESOL yn ffactor pwysig mewn datblygiad iaith. Mae'n dilyn felly bod cyflogi digon o staff hyfforddedig a phrofiadol yn hanfodol i ddarpariaeth ESOL ardderchog. Ar yr un pryd fodd bynnag, cydnabyddir bod recriwtio, hyfforddi a chadw nifer digonol o athrawon cymwysedig ESOL i ddelio gydag ehangiad darpariaeth yn creu sialensau sylweddol. Mewn adroddiad diweddar, priodolodd Estyn (2008) y 'dirywiad cyson' mewn ansawdd darpariaeth ESOL yng

Nghymru i brinder parhaus o athrawon arbenigol. Adlewyrchir y prinder hwn o diwtoriaid ESOL cymwysedig addas yn y '*Cytundeb Sgiliau Sector i Gymru*' Dysgu Gydol Oes DU (LLUK)[7] a hefyd mae GHK (2008) yn eu *Adolygiad o ESOL yng Nghymru* yn amlygu'r anawsterau y mae darparwyr yn eu wynebu wrth ddenu athrawon cymwysedig addas, a oedd mewn sawl achos yn cyfyngu ar eu gallu i gyflwyno ESOL. Mewn gwirionedd roedd dros un rhan o dair o'r wyth ar hugain o ddarparwyr a holwyd gan GHK yn ystyried prinder athrawon fel rhwystr 'sylweddol neu hynod o sylweddol' i gyflwyniad ESOL (GHK 2008).

Felly mae astudiaethau ymchwil yn amlygu prinder difrifol o diwtoriaid arbenigol ESOL ac mae hyn yn effeithio ar natur ac ansawdd darpariaeth ESOL (Estyn 2008; GHK 2008; Dalziel & Sofres 2005). Yn ein gwaith maes ein hunain, dro ar ôl tro, mae darparwyr wedi dweud wrthym am yr anawsterau a wynebant. Fel y cadarnhaodd un darparydd yn Ne Glanyrafon Caerdydd, '*Mae pawb ohonom yn gwybod bod anawsterau mawr o ran recriwtio ac yna cadw tiwtoriaid ESOL.'* Yn yr ardaloedd trefol, yn enwedig mae'r galw uchel am ESOL yn aml yn golygu rhestrau aros hir a dosbarthiadau wedi'u dogni. Hyd yn oed mewn ardaloedd gwledig lle mae poblogaeth gweithwyr mudol wedi cynyddu yn y blynyddoedd diweddar roedd darparwyr yn dweud bod y galw yn dechrau mynd yn fwy na'r cyflenwad.

Mae delio gyda'r cwestiwn o sut fath o athrawon fyddai'n creu'r profiadau dysgu cadarnhaol ac yn codi ansawdd yn bwnc hanfodol yng Nghymru (Estyn 2008). Mae denu rhai newydd i weithio ym maes ESOL yn creu sialensau sylweddol, oherwydd mae amodau cyflogaeth yn llai deniadol yn enwedig i raddedigion newydd sydd yn chwilio am swyddi llawn amser parhaol gyda strwythur gyfra glir (gweler hefyd GHK 2008). Nodweddir gweithlu ESOL gan fodel llafur hyblyg gyda chymharol ychydig o athrawon mewn swyddi llawn amser ac ychydig o lwybrau gyrfa. Cyflogir nifer o athrawon ESOL ar sail cyflog fesul awr/sesiwn heb fawr o ddiogelwch, manteision, cyfleoedd na chyflog cyflogaeth llawn amser. Mae hyn yn tanseilio'r gwerth a roddir i, ac a deimlir gan athrawon ac mae'n debyg mai dyna'r rheswm pam fod trosiant mor enfawr yn ESOL (Sunderland 2006). Mae gwneud y proffesiwn yn fwy deniadol trwy

[7] Dysgu Gydol Oes DU (LLUK) yw'r cyngor sector sgiliau sydd yn gyfrifol am ddatblygiad proffesiynol staff sydd yn gweithio yn y sector dysgu gydol oes DU

wella amodau cyflogaeth felly yn angenrheidiol wrth fynd i'r afael â phroblemau recriwtio.

Mae astudiaethau ymchwil wedi codi arbenigedd athrawon fel un o'r ffactorau mwyaf hanfodol mewn ymarfer ESOL effeithiol (Baynham *et al* 2007). Mae hyfforddiant cychwynnol a datblygiad proffesiynol parhaus yn hanfodol i gefnogi athrawon i ddatblygu'r weledigaeth a'r sgiliau sydd yn hanfodol i gynnydd dysgwyr ac i lwyddiant yn y dyfodol (Ward 2007). Mewn adroddiad diweddar, mae Estyn yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried ar frys ddulliau i wella cyfleoedd hyfforddi ar gyfer athrawon ESOL. Mae'r adroddiad yn amlygu'r nifer cyfyngedig o hyfforddwyr athrawon i gyflwyno cyrsiau ar lefelau priodol a'r cyfleoedd cyfyngedig sydd ar gael i dderbyn hyfforddiant yn lleol.[8] Yn eu hymchwil mae GHK (2008) yn argymell datblygu strategaeth gweithlu ar y cyd gyda LLUK Cymru, i ystyried newidiadau yn amodau cyflogaeth a chyfleoedd a llwybrau hyfforddiant i diwtoriaid ESOL. Ar adeg ysgrifennu hwn mae Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried rhaglen 'Hyfforddi'r Hyfforddwyr' achrededig ar gyfer ESOL a Sgiliau Sylfaenol fel rhan o gynllun cyflwyno Sgiliau Sylfaenol Cymru ar gyfer 2008-2010.

[8] Mae adroddiad Estyn (2008) yn nodi bod y darparwyr hynny sydd â mynediad i hyfforddiant lleol yn datgan nad oes ganddynt gyllideb datblygiad staff arbennig ar gyfer ESOL

## 6. DADANSODDIAD ASTUDIAETH ACHOS

Mae amrywiaeth dysgwyr ESOL yn amlwg ac mae'r ymatebion i'r galw am wersi Saesneg yn wahanol mewn gwahanol ddinasoedd, trefi ac ardaloedd gwledig yng Nghymru. Trafodwyd yr amrywiaeth mewn ansawdd darpariaeth ESOL a chyd-destun dysgu ESOL yn adrannau 5.3 a 5.4. Yn ychwanegol, mae galw bellach am ESOL mewn ardaloedd o Gymru gydag ychydig neu ddim traddodiad o ddarpariaeth o'r fath, er enghraifft mewn ardaloedd gwledig gyda nifer o weithwyr mudol (amaethyddol) A8. Mae hyn yn gosod sialens sylweddol ar y drefn gyfredol. Ar yr un pryd fodd bynnag mae elfen unedig gref. Fel y crybwyllwyd eisoes, prin iawn y mae dysgwyr eisiau dysgu Saesneg er ei fwyn ei hun; maent fel rheol yn chwilio am offeryn i'w galluogi i wneud rhywbeth arall.

Mae ffiniau'r hyn sydd yn cyfrif fel darpariaeth ESOL wedi dod yn fwy symudol (Barton & Pitt 2003) wrth i'r llif rhwng ESOL ac EFL, rhwng ffurfiau pendant o ESOL ac ESOL yn gynwysedig mewn pynciau eraill a rhwng ESOL a llythrennedd oedolion newid. Yn ein hymchwil, roedd dysgwyr yn dilyn eu nodau mewn lleoliadau ffurfiol ac anffurfiol gwahanol oedd yn cynnwys colegau, canolfannau cymunedol, neuaddau eglwys, ysgolion a gweithleoedd. Roedd dysgwyr yn ceisio datblygu gallu mewn Saesneg mewn rhaglenni ESOL ffurfiol neu o fewn pynciau eraill tra bod eraill yn parhau i fynychu dosbarthiadau llythrennedd oedolion. Mae'r canlynol yn cynnig nifer o enghreifftiau o wahanol ffurfiau o ESOL y gwnaethom sylwi arnynt wrth gyflawni ein gwaith maes.

### 6.1 ESOL Ffurfiol:

***Partneriaeth Dysgu Abertawe:***

Mae gan Abertawe, yn ogystal â bod yn ddinas gwasgaru ar gyfer ceiswyr lloches, nifer o weithwyr mudol yn byw yn ei chymunedau. Ym mis Chwefror 2009 lansiodd y ddinas ei hymgyrch i gael 'Statws Dinas Noddfa'. Mae 'Dinas Noddfa' yn fudiad cenedlaethol i adeiladu diwylliant o groeso i bobl sydd yn chwilio am noddfa yn y DU. Yn Abertawe mae pobl leol, grwpiau cymunedol, busnesau, cyrff a sefydliadau wedi ffurfio 'Gweithgor Dinas Noddfa' i'r diben hwn.

Nod Prosiect Partneriaeth Dysgu Abertawe, sydd wedi'i gyllido gan y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd, yw darparu adnodd defnyddiol ac addysgiadol ar gyfer yr

holl newydd ddyfodiaid i Abertawe. Mae’r bartneriaeth yn cynnwys Adran Addysg Oedolion ym Mhrifysgol Abertawe, Coleg Addysg Bellach Gorseinon, Coleg Addysg Bellach Abertawe, Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes Dinas a Chyngor Abertawe, Canolfan Menywod Abertawe a Chyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe. Mae’r prosiect yn gweithio gyda grŵp o ddysgwyr ESOL yn y ddinas i ddatblygu adnoddau dysgu iaith ychwanegol y tu hwnt i’r dosbarth sydd ar gael i holl ddysgwyr ESOL y Abertawe. Mae’r dysgwyr, yn y broses ac yn ychwanegol at greu adnoddau defnyddiol ar gyfer eraill, yn cynyddu eu sgiliau TG ym meysydd sain, fideo a dylunio gwefannau.

Gan defnyddio’r rhyngrwyd a chwaraewyr MP3 rhesymol eu pris mae myfyrwyr ESOL wedi gweithio gyda thiwtoriaid TG a’r tîm dylunio gwefan a graffeg yn yr Adran Addysg Oedolion ym Mhrifysgol Abertawe i greu adnoddau gwefan. Mae’r adnoddau hyn yn cynnwys ffeiliau sain, gyda thrawsysgrifau sydd yn rhoi ymarfer ychwanegol mewn defnydd iaith. Mae’r adnawdd ychwanegol hwn yn ategu at amser dysgwr mewn dosbarth ESOL. Mae’r wefan yn cynnwys gwybodaeth leol hefyd[9], ffeiliau sain ar gyfer eu lawrlwytho[10] a chyfleusterau eraill [11] ac mae’n gweithredu fel adnodd ar-lein i newydd ddyfodiad i Abertawe. Lansiwyd y wefan[12] ym mis Mehefin 2008 a hyd yn hyn mae dros 500 o ddysgwyr ESOL wedi’u hyfforddi i ddefnyddio’r wefan ac wedi derbyn chwaraewyr MP3 am ddim.

Mae’r Prosiect Partneriaeth Dysgu Abertawe wedi bod  yn effeithiol o ran cyrraedd grwpiau ‘anodd i’w cyrraedd’ fel mamau sydd yn draddodiadol yn aros gartref, gweithwyr sifftiau, gweithwyr bwytai ac arlwyo a phartneriaid dysgwyr cyfredol ESOL sydd oherwydd eu hamgylchiadau yn methu â mynychu dosbarthiadau. Mae’r prosiect hefyd wedi bod yn llwyddiannus o ran cyrraedd gweithwyr mudol sydd yn gorfod talu am ddosbarthiadau ESOL ond sydd yn aml wedi’u dal mewn swyddi isel eu cyflog ac sydd yn methu â fforddio mynychu dosbarthiadau.  Mae’r adnawdd we hefyd yn darparu cefnogaeth ychwanegol am ddim i’r dysgwyr hynny sydd ei angen.

[9] Er enghraifft: sut i ddarganfod cyfreithiwr, sut i wneud apwyntiadau ar y ffôn, ymweld â’r Ganolfan Cyngor Ar Bopeth, sut i ddarganfod lleoliadau penodol yn Abertawe yn ogystal â chyflwyniad i ddiwylliant lleol.
[10] Er enghraifft: cyfweliadau byr, enghreifftiau o ynganiadau anodd, paragraffau, darllen yn araf, ymadrodd wrth ymadrodd gyda gofod i ailadrodd.
[11] Er enghraifft: straeon fideo, testunau i fynd gyda ffeiliau sain, adnoddau eraill ESOL (gemau, cwis) cysylltiad gyda phorth e-ddysgu Partneriaeth Dysgu Abertawe, cysylltiadau gyda chyrff ac adnoddau ffoaduriaid a cheiswyr lloches eraill
[12] www.swansea-arrivals.net

Hefyd mae 35 tiwtor wedi'u hyfforddi i ddefnyddio technolegau newydd ac mae nifer o'r rhain wedi cyfrannu at y wefan.

Yn bwysig, mae'r prosiect wedi creu synnwyr o berchnogaeth ymysg y gwahanol gymunedau amrywiol yn y ddinas. Mae gweithwyr mudol, ffoaduriaid, ceiswyr lloches oll wedi gweithio'n wirfoddol ar y prosiect. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys dylunio'r wefan yn ogystal â chynhyrchu ffeiliau sain a straeon fideo.

***Canolfan Gelfyddydau a Dysgu'r Ddraig:***

Nod Canolfan Gelfyddydaua Dysgu'r Ddraig yn Abertawe yw hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol trwy ddysgu. Ers mis Medi 2007 mae'r ganolfan wedi darparu dosbarthiadau ESOL am ddim i ddysgwyr sydd mewn gwaith cyflogedig am 16 awr yr wythnos neu lai. Mae'r cwricwlwm yn darparu'n bennaf ar gyfer ceiswyr lloches a ffoaduriaid unigol a nifer llai o bobl o gymunedau mudol traddodiadol yn Abertawe. Ar hyn o bryd mae Celfyddydau'r Ddraig yn gweithio gyda dysgwyr ESOL o 27 o wahanol gefndiroedd ethnig sy'n dod o amrediad o gefndiroedd diwylliannol, addysgol ac ieithyddol. Mae dysgwyr yn amrywio o'r rhai sydd â dealltwriaeth sylfaenol o Saesneg ond sydd â phrofiad addysgol ffurfiol cyfyngedig yn eu gwlad enedigol i bobl broffesiynol addysgedig sydd yn siarad ychydig neu ddim Saesneg. Yn ddiweddar mae'r ganolfan wedi gweld cynnydd amlwg yn y nifer o ddysgwyr benywaidd sydd yn ymrestru ar eu cwrs ESOL.

Mae dosbarthiadau ESOL yn cynnwys y sbectrwm o Cyn Mynediad i Lefel Mynediad 3 ac mae gan y dysgwyr yng Nghanolfan Gelfyddydau a Dysgu'r Ddraig y dewis o ddilyn cyrsiau achrededig ac heb fod yn achrededig. Yn ogystal â dosbarthiadau penodol ESOL, anogir y dysgwyr i ymrestru ar weithgareddau dysgu eraill yn cynnwys cyrsiau Sgiliau Sylfaenol, TGCh, cerameg, ffotograffeg ( ffilm a digidol) a cherddoriaeth. Mae dysgwyr yn y ganolfan hefyd yn cymryd rhan mewn ymweliadau â mannau o ddiddordeb hanes lleol a diwylliannol.

Mae Canolfan Gelfyddydau a Dysgu'r Ddraig wedi bod yn llwyddiannus mewn sawl ffordd. I ddechrau ym mis Tachwedd 2007 sefydlwyd gweithgor rhwng y sectorau statudol a gwirfoddol yn Abertawe gyda'r bwriad o ddarparu cyfeiriad a strwythur ar

gyfer darpariaeth ESOL yn y ddinas.[13] Mae'r bartneriaeth hon wedi galluogi cyrff gwirfoddol yn Abertawe i strwythuro eu ymrestru o gwmpas dyddiadau ymrestru traddodiadol y sector statudol. Wrth wneud hynny mae cyrff fel Canolfan Gelfyddydau a Dysgu'r Ddraig wedi dod yn brif bwynt mynediad i ESOL trwy gydol y dyddiadau sydd yn weddill yn y flwyddyn academaidd a thrwy hynny, sicrhau bod dysgwyr ESOL yn Abertawe yn cael eu gwasanaethu orau trwy'r dulliau y mae'r ddarpariaeth yn y ddinas wedi'u strwythuro. Yn ail, mae Canolfan Gelfyddydau a Dysgu'r Ddraig wedi dangos eu bod yn gam effeithiol ac mae nifer o ddysgwyr ESOL naill ai wedi symud ymlaen i ddilyn dysgu ESOL achrededig yng Ngholeg Abertawe neu wedi cael gwaith cyflogedig. Hefyd, tra'n astudio yn y Ganolfan mae dysgwyr ESOL wedi cael y cyfle i ddysgu sgiliau newydd trwy weithgarwch dysgu ychwanegol ac maent yn cael golwg ar hanes a diwylliant lleol trwy gyfrwng tripiau ac ymweliadau. Yn olaf, fel y nodwyd eisoes, mae Celfyddydau'r Ddraig yn gweithio gyda dysgwyr o ystod eang o gefndiroedd diwylliannol, gan ganolbwyntio ar y syniadau o ryngweithio a chynhwysiad. Ar gyfer Wythnos Ffoaduriaid 2008, trefnodd y Ganolfan ddigwyddiad 'Cyfarfyddiadau Cadarnhaol: Bwyd ar draws y Byd', yn y ganolfan, lle yr anogwyd dysgwyr ac aelodau o'r gymuned leol i brofi, blasu a mwynhau gwahanol fwydydd, cerddoriaeth a diwylliant.[14]

### 6.2 ESOL anffurfiol

Yn ein gwaith maes daethom ar draws sawl enghraifft o ddarpariaeth ESOL anffurfiol wedi'i ddylunio i ddiwallu anghenion gwahanol grwpiau o ddysgwyr ESOL. Yn y canlynol rydym yn amlinellu'r ymagweddau a ddyluniwyd ac a ddilynwyd yng Nghanolfan Datblygu a Chymunedol De Glanyrafon ac yn Race Equality First yng Nghaerdydd i gynnwys y dysgwyr ESOL mwyaf ymylol.

#### *Canolfan Datblygu a Chymunedol De Glanyrfon: Cyrraedd y rhai wedi ymddieithrio*

Un o'r problemau parhaol i ddarparwyr ESOL yw sut i ddenu, recriwtio a chadw dysgwyr o gymunedau mudol traddodiadol. Mae'r Ganolfan Datblygu a Chymunedol yn Ne Glanyrafon ('y Ganolfan') ar gyrion Canol Dinas Caerdydd wedi bod yn gweithio ers canol yr 1970au. Yn y blynyddoedd ers hynny mae'r ganolfan wedi

[13] Canyliad y grwp hwn oedd dogfen *Strategaeth ESOL ar gyfer Abertawe*
[14] Gweler: http://www.bbc.co.uk/wales/southwest/sittes/swansea/pages/refugeeweek08slideshow.shtml

sefydlu rhwydweithiau gyda'r cymunedau De Ddwyrain Asia yn yr ardal ac wrth wneud hynny, wedi adeiladu lefelau sylweddol o ymddiriedaeth yn y cymunedau hyn. I'r bobl yn y Ganolfan bu ymrwymiad i'r broses hirdymor yn holl bwysig wrth gyflawni hyn. Fel y dywed y Cydlynydd Cymunedau'n Gyntaf yno, " Bu hyn yn broses araf o ddyfalbarhad ac amynedd'.

Mae'r Ganolfan yn rhedeg nifer o wahanol ffurfiau o ddosbarthiadau ESOL ac yn 2008 recriwtiodd y Ganolfan dros 370 o ddysgwyr ESOL o'r gymuned leol ac o'r cymunedau cyfagos. Cafodd yr holl ddysgwyr eu recriwtio trwy gyfrwng y gair llafar ac ni fu unrhyw hysbysebu ffurfiol. Mae'r rhwydweithiau lleol mor sefydledig fel na fu'n rhaid i'r Ganolfan hysbysebu dosbarth mewn dros 4 blynedd.

***Cynnwys Menywod ar yr Ymylon***

Neges allweddol gan y grwpiau ffocws a gynhaliwyd gyda darparwyr ESOL yw bod cyfrifoldebau gofal plant yn effeithio'n drwm ar allu a pharodrwydd menywod i gael gafael ar ddysgu a  gwaith ac nad yw nifer o fenywod mewn cymunedau mudol traddodiadol yn gweithio ac nad oes ganddynt bŵer gwario eu hunain o fewn yr uned deuluol. Daeth yn amlwg bod disgwyl i fenywod, yn enwedig yn y cymunedau traddodiadol De Ddwyrain Asia, gael plant ac yn aml mae ganddynt deuluoedd mawr. Maent yn rhoi blaenoriaeth i fod yn fam dros astudio a gweithio – dewis gofalu am eu plant eu hunain pan maent yn ifanc. Y rheswm yn bennaf dros hynny, yn ôl a ddywedwyd wrthym, yw oherwydd y sialensau ymarferol o gyfuno cyfrifoldebau gofalu gyda dysgu neu weithio, gyda'u sefyllfa o fewn y teulu, fel menywod, a chan eu bod nhw eu hunain yn ystyried gofalu am y teulu a'r cartref fel eu prif gyfrifoldeb.[15] Lle defnyddir gofal plant, mae tueddiad i ffafrio trefniadau gofal plant anffurfiol gan ddefnyddio'r teulu estynedig ac mae nifer yn amharod i ddefnyddio gofalwyr plant a threfniadau ffurfiol eraill.[16]

O fewn y gymuned De Asiaidd hefyd mae iechyd gwael, yn cynnwys iechyd meddwl gwael, hunan laddiad a hunan niweidio yn cael eu hystyried yn broblemau sylweddol i fenywod, yn enwedig menywod ifanc (Anand & Cochrane, 2005). Dengys ymchwil

[15] Mae hyn yn adlewyrchu ymchwil Ward a Spacey (2008) i deithiau dysgu menywod Bangladesh, Pacistan a Somalia.
[16] Gweler gwaith Aston etal (2007), Hal etal (2004) a Tacket etal (2006) hefyd

bod nifer o ffactorau yn effeithio ar iechyd meddwl y menywod hyn. Darganfu astudiaeth diweddar (Muralidharan, 2007) o ferched a menywod ifanc rhwng 11 a 25 oed o bob cefndir bod y rhan fwyaf o'r ffactorau sydd yn effeithio ar eu hiechyd emosiynol yn debyg, waeth beth oedd eu dosbarth na'u cefndir ethnig. Ond roedd menywod ifanc o gefndiroedd De Asiaidd yn wynebu nifer o rwystrau wrth gael gafael ar gefnogaeth. Mae'r rhain yn cynnwys realiti beunyddiol braint gwrywaidd sydd yn bodoli mewn rhai teuluoedd a chymunedau, yr anawsterau y mae rhai'n eu cysylltu gyda bod yn rhan o gymuned glos a'r syniad o anrhydedd teulu (*izzat).*

Mae astudiaethau sydd yn edrych ar brofiadau menywod sydd yn dioddef iselder a phroblemau iechyd eraill yn amlygu problemau tebyg. Mae'r angen i gydymffurfio gyda gwerthoedd cymdeithasol a diwylliannol, profiad o drais a chamdriniaeth ac ynysu cymdeithasol yn ffactorau allweddol sydd yn effeithio ar eu hiechyd meddwl. Fodd bynnag, mae tybiaethau am 'Ddiwylliannau De Asiaidd' a stereoteipiau am fenywod o'r diwylliannau hyn wedi golygu nad yw darpariaeth gwasanaeth yn delio â'r problemau hyn (Burman, Chantier & Batsieer, 2002; Burr, 2002).

Am sawl blwyddyn mae Canolfan Datblygu a Chymunedol De Glanyrafon, mewn partneriaeth gyda Chymdeithas Addysg y Gweithwyr (WEA) wedi darparu dosbarthiadau iechyd a lles gydag ESOL ynghlwm wrthynt i fenywod yn unig. Nod y dosbarthiadau hyn yw cynnwys menywod De Ddwyrain Asia sydd yn byw yn yr ardal. 10 – 12 yw'r mwyaf sydd yn y dosbarthiadau. Mae meddyg Asiaidd benywaidd wedi'i recriwtio i gyflwyno'r cwrs. Mae'r rhai sydd yn mynychu'r dosbarthiadau yn amrywio o bensiynwyr sydd wedi byw yn ne Glanyrafon am dros ddeng mlynedd ar hugain i newydd ddyfodiaid, menywod ifanc sydd wedi cyrraedd Cymru yn dilyn priodasau wedi'u trefnu. Daw'r menywod hyn yn bennaf  o gefndiroedd gwledig tlawd yn Somalia, Pacistan a Bangladesh; maent yn dioddef amgylchiadau economaidd tlawd ac wedi'u cyfyngu gan ddisgwyliadau diwylliannol o ran rôl menywod a merched. Dydy'r mwyafrif mawr heb fod i ysgol, neu mae ganddynt brofiadau cyfyngedig iawn o addysg ac nid ydynt yn siarad, darllen nac ysgrifennu unrhyw Saesneg. Ychydig iawn ohonynt sydd yn gadael eu cartrefi ar eu pennau'u hunain, ac eithrio i fynychu dosbarthiadau.

***Cynnwys Dynion ar yr Ymylon***

Mae presenoldeb De Asiaidd wedi bod ym Mhrydain ers yr 1600au. Dechreuodd mudo ar raddfa fawr o Dde Asia ar ôl yr Ail Ryfel Byd a pharhaodd trwy'r twf economaidd a'r prinder llafur yn yr 1950au a'r 1960au. Yn ystod y cyfnod hwn gwelodd Caerdydd, ac yn enwedig De Glanyrafon, fewnfudiad graddol o fudwyr economaidd, yn bennaf dynion, o Dde Ddwyrain Asia. Eu rheswm dros ddod i Gymru oedd i chwilio am waith cyflogedig. Roedd rhai o'r mewnfudwyr wedi cymhwyso'n broffesiynol, ond roedd y mwyafrif yn llafurwyr heb sgiliau o ardaloedd gwledig a ddarganfu gwaith yn y diwydiannau cynhyrchu, cynhyrchu bwyd ac arlwyo. Mae'r patrwm hwn wedi parhau a heddiw daw dynion ifanc i Dde Glanyrafon i chwilio am waith cyflogedig, ar ôl cyrraedd yn ddiweddar o gyfandir De Ddwyrain Asia. Tra bod gan rai brofiad o rhywfaint o addysg yn eu gwlad enedigol, mae Saesneg y mwyafrif yn brin, neu ni allant siarad Saesneg o gwbl. Mae disgwyliad cryf i'r dynion hyn ennill cyflog a bod yn ddarparwyr tra bod disgwyl i'r menywod aros yn y cartref.

Ers 2007 mae Canolfan Datblygu a Chymunedol De Glanyrafon a'r WEA wedi bod yn darparu dosbarthiadau TGCh achrededig y Rhwydwaith Coleg Agored (OSN) ddwywaith yr wythnos ac ESOL yn gynwysedig ynddynt ar gyfer y dynion hyn:

> Rydym wedi rhoi cynnig ar sawl ffordd o'u denu [dynion] gan sylweddoli'n fuan mai yng nghanol y prynhawn oedd yr unig amser o'r dydd y gallem gynnal unrhyw ddosbarthiadau ar eu cyfer. Dyma'r unig adeg o'r dydd pan nad ydynt yn gweithio. Mae eu bywydau yn llawn dop. Maent yn eu tacsi yn ystod y dydd ac yn gweithio yn y bwytai gyda'r nos.

Yn ystod cyfnod o ddwy flynedd y dosbarthiadau mae dros ugain o ddynion ifanc, y grŵp llawn o fyfyrwyr, wedi derbyn cymwysterau/tystysgrifau OCN.

Wrth geisio cynnwys y dynion a'r menywod 'anoddaf i'w cyrraedd' o'r cymunedau mudol traddodiadol bu Canolfan Datblygu a Chymunedol De Glanyrafon yn llwyddiannus mewn sawl ffordd. I ddechrau mae ESOL yn y Ganolfan wedi'i ffurfio o gwmpas bywydau ac anghenion y gymuned leol. Mae'r anghenion hyn wedi'i nodi dros sawl blwyddyn, trwy weithio ar y cyd gyda'r gymuned leol a gwrando'n weithredol ar grwpiau cymunedol, hynafgwyr y cymunedau ac aelodau'r cymunedau.

Wrth weithio fel hyn ochr yn ochr gyda'r gymuned, mae'r bobl yn y Ganolfan wedi datblygu dealltwriaeth fanwl o'r gymuned leol a'r modd y mae'r Ganolfan a mentrau'r Ganolfan yn gweithio o fewn cyd-destun y gymuned o fewn ardal De Glanyrafon. Mae'r ddealltwriaeth hon yn mynd y tu hwnt i 'ymwybyddiaeth diwylliannol' syml o'r gymuned leol ac mae'n cynnwys 'gallu diwylliannol' sydd yn ffurfio'r modd y mae'r Ganolfan, ar bob lefel, yn gweithio gyda'r gymuned. Hynny yw, datblygiad o ddealltwriaeth a pharch tuag at y cymunedau amrywiol sydd yn ffurfio De Glanyrafon, y gwahaniaethu yn y cymunedau hyn, yn cynnwys gwahaniaethau rhyw a'r newidiadau graddol yn y cymunedau hynny sydd yn digwydd dros gyfnod o amser. Wrth weithio fel hyn mae'r Ganolfan wedi gosod ei hun mewn sefyllfa lle maent yn gallu ymwneud â'r cymunedau hyn mewn ffordd sydd yn parchu eu diwylliannau a'u gwerthoedd.

Mae mentrau wedi'u dylunio i ddiwallu anghenion neilltuol wedi'u ffurfio o gwmpas dealltwriaeth bod *rhaid* i gymunedau uniaethu gyda'r mentrau hynny. Bydd mentrau lle nad yw'r gymuned yn gallu uniaethu â nhw yn methu â gwasanaethu'r bobl y maent wedi'u bwriadu i'w gwasanaethu. Mae gweithio mewn modd sydd yn 'ddiwylliannol alluog' wedi cynyddu gallu'r Ganolfan i gysylltu gyda'r gymuned ac hefyd i gael ymrwymiad gan y gymuned leol. Mae hyn mor wir fel bod y Ganolfan bellach mewn sefyllfa i gyrraedd y tu hwnt i'r gymuned ac i deuluoedd a chartrefi De Glanyrafon:

> Deng mlynedd yn ôl pan wnaethom ddechrau'r dosbarthiadau iechyd i fenywod roedd y dynion y teuluoedd yn dod i mewn ac yn tynnu'r menywod o'r dosbarthiadau. Heddiw rydym mewn sefyllfa lle mae'r dynion yn y teuluoedd yn argymell ac yn annog y menywod yn eu teuluoedd i fynychu ein dosbarthiadau. Dydy hynny ddim wedi digwydd dros nos. Mae wedi cymryd deng mlynedd o waith caled a dyfalbarhad i gyrraedd lle rydym ni. Deng mlynedd i ennyn ymddiriedaeth y gymuned.

Wrth wneud hynny mae De Glanyrafon wedi gallu symud y tu hwnt i sefyllfa lle mae'r ganolfan, yn hytrach na cheisio diwallu *galwadau'r* gymuned leol, yn ffurfio ac yn addasu'r dysgu i ddiwallu'r newidiadau yn *anghenion* y gymuned (ac yng nghyd-

destun y gymuned) mewn modd lle mae'r gymuned yn ymgysylltu gyda'r hyn y mae'r Ganolfan yn ceisio ei gyflawni.

Ail ffactor sydd yn cyfrannu at lwyddiant Canolfan Datblygu a Chymunedol De Glanyrafon yw cryfder ac ehangder y rhwydweithiau sydd ganddynt a'r modd pragmataidd sydd ganddynt o gydweithio gyda gwahanol gyrff mewn ffyrdd gwahanol er lles y gymuned leol. Mae'r rhwydweithiau hyn, wedi'u hadeiladu ar y gefnogaeth eang sydd gan y Ganolfan o fewn cymuned De Glanyrafon, yn amrywio o rwydweithiau lleol i sefydliadau a chyrff mawr yn cynnwys: awdurdodau lleol, prifysgolion a chyrff elusennol byd-eang. Mae trosglwyddo gwybodaeth, syniadau, ymchwil a sgiliau rhwng De Glanyrafon, y gymuned leol a chyrff ehangach yn ganolog i'r rhwydweithiau hyn, er mwyn datblygu gwasanaethau newydd arloesol a dulliau newydd o ddysgu.[17]

Ffactor olaf sydd yn cyfrannu at lwyddiant a chynaliadwyaeth darpariaeth ESOL a'r gwaith ehangach yng Nghanolfan Datblygu a Chymunedol De Glanyrafon yw'r arweinyddiaeth effeithiol ac ymroddedig oddi mewn a thu allan i'r corff. Mae arweinwyr a staff y Ganolfan o fewn y corff ac o fewn y gymuned leo., yn ogystal â hyrwyddwyr dysgu mwy anffurfiol sydd yn hyrwyddo dysgu ESOL o fewn y gymuned ac o fewn teuluoedd a chartrefi, yn hanfodol o ran creu amgylchedd sydd yn hwyluso ac yn cefnogi dysgu sydd yn digwydd yng Nghanolfan Datblygu a Chymunedol De Glanyrafon.

***Race Equality First a TUC Cymru: Gweithio gyda Gweithwyr Mudol***

Fel y crybwyllwyd eisoes, gweithwyr mudol sydd yn ffurfio'r grŵp mwyaf o ddysgwyr ESOL yng Nghymru (GHK, 2008, Estyn, 2008). Dengys ffigurau o arolwg diweddar o ddarparwyr ESOL yng Nghymru (GHK 2008) bod bron i hanner (47%) o'r holl ddysgwyr sydd yn mynychu eu darpariaeth ESOL yn weithwyr mudol,[18] yn bennaf o'r gwledydd sydd wedi'u derbyn yn ddiweddar i'r UE o Ddwyrain Ewrop, Bwlgaria a Rwmania. O fewn y grŵp hwn dywedodd y mwyafrif o'r rhai a holwyd mai o Wlad Pwyl y daw mwyafrif eu dysgwyr.

[17] Er enghraifft, gweler yr adran isod: ESOL a Dysgu Teulu Cyfochrog
[18] Mae ceiswyr lloches yn 14% a ffoaduriaid yn 5% o gyfanswm dysgwyr ESOLO yng Nghymru (GHK, 2008)

Mae Race Equality First, sydd wedi'i leoli yng nghanol Dinas Caerdydd, wedi bod yn cynnal dosbarthiadau ESOL wythnosol o'u swyddfeydd ar gyfer gweithwyr mudol, yn bennaf gweithwyr Pwylaidd sydd yn byw ac yn gweithio yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg ers 2007. Mae'r dosbarthiadau wedi'u hanelu at lefel cyn mynediad ESOL. Ychydig o brofiad addysgol sydd gan y mwyafrif mawr o'r dysgwyr yn eu gwledydd genedigol ac ychydig o Saesneg, neu ddim o gwbl, y maent yn ei siarad. Bu'n bwysig felly bod y dosbarthiadau ESOL yn Race Equality First yn cael eu cymryd gan siaradwr Pwyleg rhugl. I'r diben hwn mae Race Equality First wedi recriwtio athrawes Bwyleg, gweithwraig mudol ei hun sydd wedi byw yng Nghymru ers 2006. Cyllidir y dosbarthiadau, a ddyfeisiwyd gan bobl yn Race Equality First gan TUC Cymru. Mae'r dosbarthiadau yn anffurfiol ac heb eu achredu ac mae pynciau wythnosol wedi'u llunio o gwmpas bywyd bob dydd: gwaith, materion lles, mynediad i wasanaethau lleol, bancio, gofal iechyd a chyngor iechyd ac yn y blaen.

Bu'r dosbarthiadau'n llwyddiant mewn sawl ffordd. I ddechrau mae Race Equality First wedi llwyddo i ddenu nifer o ddysgwyr sydd yn aml wedi bod yn anodd cael gafael arnynt. Ychydig o brofiad addysgol sydd gan y mwyafrif o'r dysgwyr yn eu gwledydd genedigol ac roeddent felly yn teimlo'n ynysig gydag ychydig o hunan barch. Mae'r hyder y mae'r dysgwyr wedi'i gael o'r dosbarthiadau wedi eu hannog i greu cyfeillgarwch gyda phobl yn y gwaith ac yn y cymunedau y maent yn byw ynddynt ac hefyd i gymryd rhan mewn gweithgareddau 'cymdeithasol' yn y gwaith. Yn ail, mae Race Equalities First wedi dylunio'r gwersi mewn modd sydd yn sicrhau bod dysgwyr yn dod yn gyfarwydd yn gyflym gyda'r eirfa a'r strwythurau Saesneg sydd yn angenrheidiol iddynt ymdopi gyda  sefyllfaoedd beunyddiol. Yn drydydd, mae'r dosbarthiadau wedi cynyddu gallu'r unigolyn i ddeall ac felly gorfodi eu hawliau cyflogaeth. Yn olaf, mae nifer o'r dysgwyr sydd yn mynychu dosbarthiadau yn Race Equality First wedi parhau i wella eu gwybodaeth o Saesneg trwy 'symud ymlaen' i ddysgu ESOL achrededig pellach yng Ngwasanaeth ESOL The Parade yn y ddinas[19], gan ddangos bod y ddarpariaeth gychwynnol hon sydd wedi'i thargedu'n benodol, wedi rhoi profiad dysgu cychwynnol cadarnhaol iddynt ac wedi eu hannog i ddysgu ymhellach.

[19] Mae gan y prosiect ESOL yn Race Equality First berthynas waith agos gyda dosbarthiadau ESOL mewn coleg AB yn y ddinas ac mae'r berthynas hon yn digwydd ddwy ffordd.

**6.3 ESOL Sgwrsio:**

Un o'r ffurfiau mwyaf trawiadol a bywiog o ddysgu Saesneg y gwelsom yn ystod cam gwaith maes ein hymchwil oedd y sgwrsio/goroesi Saesneg oedd yn cael ei gynnal yn Abertawe a Llanelli.

***Saesneg Goroesi ym Mae Abertawe a Llanelli:***

Mae Grŵp Cefnogi Ceiswyr Lloches Bae Abertawe (SBASSG) yn grŵp cymunedol sydd wedi cael ei ffurfio a'i redeg gan geiswyr lloches, ffoaduriaid a phobl leol eraill, yn ac o gwmpas y ddinas. Sefydlwyd y grŵp yn 2000, yn dilyn cyhoeddi strategaeth 'gwasgaru' Llywodraeth y DU a bu'n cyfarfod yn wythnosol yn seler hen eglwys Fethodistaidd yng nghanol y ddinas. Mae SBASSG yn gweithredu yn gwbl wirfoddol ac mae'n dibynnu'n bennaf ar roddion. Mae'r Ganolfan Bwyleg yn Llanelli wedi datblygu o gwmpas cyfleuster undeb credyd. Mae'r undeb gredyd yn eiddo i, ac yn cael ei rheoli gan  ei haelodaeth ei hun ac mae'n cynnig lle cyfleus i gynilo arian, yn ogystal â darparu mynediad i fenthyciadau cost isel pan fo angen. Mae mwyafrif y bobl sydd yn defnyddio'r ganolfan yn weithwyr mudol o Wlad Pwyl a nifer llai o weithwyr o Lithwania. Mae'r rhan fwyaf o'r bobl hyn yn gweithio yn ac o gwmpas Llanelli – mewn cynhyrchu bwyd, cartrefi gofal preifat ac mewn siopau. Ers 2005 mae'r bobl yn y ganolfan, gyda chyllid gan TUC Cymru, wedi bod yn cynnal dosbarthiadau sgwrsio anffurfiol bob yn ail nos Wener mewn eglwys Gatholig leol. Mae'r dosbarthiadau sydd wedi'u dyfeisio gan bobl yn y Ganolfan Bwyleg yn seiliedig ar y system ffonetig Pwyleg.

Mae Grŵp Cefnogi Ceiswyr Lloches Bae Abertawe a'r Ganolfan Bwyleg yn Llanelli yn trafod pynciau o gwmpas sefyllfaoedd bob dydd – 'Saesneg Goroesi': gwaith, cael gafael ar wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, bancio, arwyddion ffyrdd, cyfarwyddiadau, ysgol a gwaith ysgol, hawliau dynol, hawliau cyflogaeth ac yn y blaen. Cefnogir y dosbarthiadau gan hyrwyddwyr addysgu a dysgu a gwirfoddolwyr o'r gymuned leol. Mae'r ddau grŵp yn trefnu digwyddiadau ac ymweliadau cymdeithasol a diwylliannol. Anogir teuluoedd i fynychu'r dosbarthiadau sgwrsio a hyd yn hyn mae dros dri chant o bobl wedi gwneud hynny.

Mae Grŵp Cefnogi Ceiswyr Lloches Bae Caerdydd a'r Ganolfan Bwyleg yn Llanelli yn darparu dull holl bwysig o gefnogaeth i bobl sydd wedi'u gwthio i sefyllfaoedd

argyfyngus. Yn aml mae gweithwyr mudol, er eu bod yn gwneud cyfraniad enfawr i economi Cymru ac i'r gymdeithas yn gyffredinol (Winckler, 2007) yn aml yn cael eu dal mewn swyddi sgiliau isel, cyflog isel gydag amodau gwaith gwael. Mae eu diffyg gwybodaeth o'r iaith Saesneg ac ymwybyddiaeth isel o'u hawliau cyflogaeth yn eu gwthio i'r ymylon ac yn eu gwneud yn fregus yn y farchnad lafur sydd yn berthynol direoledig yng Nghymru (TUC 2008a). Ceiswyr lloches a ffoaduriaid hefyd sydd mwyaf mewn perygl o fod yn byw mewn amgylchiadau gwael mewn ardaloedd sydd eisoes yn ddifreintiedig ac yn byw mewn tai gwael ac mewn iechyd gwael (Cyngor Ffoaduriaid, 2005).

Ychydig o ddealltwriaeth cyhoeddus sydd yn bodoli yn aml am yr amgylchiadau sylfaenol sydd yn gorfodi ceiswyr lloches a ffoaduriaid i ffoi oddi wrth wrthdaro gwleidyddol, gormes, tlodi a newyn neu pam fod mudwyr yn gadael eu cartrefi a'u teuluoedd i chwilio am well amodau addysgol ac/neu economaidd. Ac felly wrth gyrraedd Cymru, yn hytrach na chael eu deall, yn llawer rhy aml mae ceiswyr lloches, ffoaduriaid a gweithwyr mudol yn wynebu hiliaeth. Yn yr amgylchiadau hyn mae'r dosbarthiadau sgwrsio wedi dod yn hafan ac mae'r gwirfoddolwyr yn gweithredu fel gweithredwyr ymroddedig dros hawliau'r dysgwyr. Mae'r ddau grŵp yn gweithio'n effeithiol gyda chyrff eraill yn y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol i wella amodau ar gyfer ffoaduriaid, ceiswyr lloches a gweithwyr mudo yn eu hardaloedd a thu hwnt , ac yn gweithio i wella dealltwriaeth y cyhoedd o'r problemau y mae'r grwpiau hyn o bobl yn eu wynebu.  Mae cyfleoedd i ryddhau dysgwyr i adeiladu sgiliau iaith a gwybodaeth y maent eu hangen i gael gafael ar wasanaethau, cynyddu eu hymwybyddiaeth o'u hawliau, yn cynnwys hawliau cyflogaeth ac i weithredu, wedi'u gwau i mewn i'r pynciau dysgu. Hefyd mae natur 'galw heibio' y dosbarthiadau sgwrsio a'u strwythur modiwlaidd yn rhoi digon o hyblygrwydd fel bod y dysgwyr neilltuol o fregus hyn yn gallu mynychu pan fo'u hamgylchiadau yn caniatáu hynny. Hefyd mae cyfranogiad gwirfoddolwyr lleol, yn ogystal â dwyn pobl ynghyd o wahanol ddiwylliannau a grwpiau ethnig yn annog rhyngweithio a chynhwysiad mewn dull real a bywiog iawn ac mae'n cefnogi'r syniad o gydlyniant cymunedol.

**6.4 ESOL yn Gynwysedig:**

Un llwybr yn unig yw ESOL ffurfiol/anffurfiol o ddatblygu rhuglder mewn Saesneg. Awgryma ymchwil gan Eldred (2005) bod yn well gan nifer o oedolion astudio pynciau eraill oherwydd eu prif ddiddordeb yw dilyn nodau, diddordebau a dibenion eraill, yn aml yn gysylltiedig â chyflogaeth, dinasyddiaeth neu astudiaeth bellach.

Mae nifer o astudiaethau wedi nodi gwahanol fodelau a ffactorau llwyddiant (Eldred, 2005; Cassey etal, 2006; Roberts *et a*l, 2005; Dalziel & Sofres, 2005). Fodd bynnag, mae mwyafrif yr astudiaethau hyn yn dod i'r casgliad nad oes un model sefydlog. Gellir cynnwys yr iaith Saesneg bron yn gyfan gwbl o fewn addysgu pwnc gan gysylltu'n uniongyrchol gyda phwnc a thasgau. Mae ymagweddau eraill yn cynnig cefnogaeth iaith atodol. Yn aml mae hyn wedi'i ddylunio i fod yn berthynol i raglenni penodol o ddysgwyr ond gallant gymryd ffurf sesiynau datblygu sgiliau Saesneg generig heb fod yn gysylltiedig ag unrhyw bwnc neilltuol.

***The Parade Caerdydd a Chanolfan Datblygu a Chymunedol De Glanyrafon: ESOL ar gyfer Beichiogrwydd***

O ran gwaith cymunedol, dadleuir bod canlyniadau mwyaf dymunol y gymuned yn cael eu cyflawni orau trwy gydweithio mewn partneriaethau (Altman *et a*l, 1991). Hynny yw, lle mae cyrff partneriaeth perthnasol yn rhannu gweledigaeth er mwyn cynnal ymdrech gymunedol (Goodman a Steckler, 1989) a lle mae gan y cyrff dan sylw gyfrifoldebau wedi'u nodi'n glir (Bamberger a Cheema 1990). Yn ystod ein gwaith maes gwelsom gyrff statudol a gwirfoddol yn dod at ei gilydd i ffurfio partneriaeth waith effeithiol oedd yn ceisio diwallu anghenion darn o'r gymuned De Ddwyrain Asiaidd leol yn Ne Glanyrafon.

Mae Canolfan Datblygu a Chymunedol De Glanyrafon a Gwasanaeth ESOL The Parade, menter awdurdod lleol yng Nghaerdydd, wedi bod yn rhedeg ESOL ar gyfer dosbarthiadau beichiogrwydd yng Nghanolfan De Glanyrafon ers 2007. Mae'r prosiect yn tynnu ar fenter sydd wedi bod yn rhedeg am 20 mlynedd, yn cynnwys ESOL ar gyfer dosbarthiadau beichiogrwydd yng Nghanolfan The Parade ac mae hefyd yn hyfforddi gweithwyr iechyd gwirfoddol i fynd i gartref menywod beichiog yn bennaf o'r gymuned De Asiaidd yng Nghaerdydd. Mae'r dosbarthiadau ESOL Beichiogrwydd i Fenywod yn unig yn Ne Glanyrafon wedi'u hanelu'n benodol at

fenywod ifanc i ganol oed o’r gymuned De Ddwyrain Asia, nifer ohonynt heb allu siarad, darllen nac ysgrifennu Saesneg a phrin iawn, os o gwbl y maent yn mentro allan o’u cartrefi ar eu pennau eu hunain.

Yn debyg iawn i ddosbarthiadau cyn genedigaeth, mae’r ESOL ar gyfer Beichiogrwydd yng Nghanolfan Datblygu a Chymunedol De Glanyrafon wedi’u hanelu at helpu menywod i baratoi ar gyfer gwewyr esgor, genedigaeth a chyfnod cynnar bod yn rhiant. Mae’r pynciau a drafodir yn cynnwys y broses esgor a’r enedigaeth a’r gweithdrefnau a’r ymyriadau meddygol ynghlwm â hynny. Cynigir cyngor i fenywod hefyd ar faeth ac ymarfer da, technegau ymlacio, dewisiadau lleddfu poen a bwydo eu babanod. Maent wedi’u datblygu yn The Parade ar y cyd gyda bydwragedd ymgynghorol ac mae’n cynnwys ymweliad â ward mamolaeth yn Ysbyty Prifysgol Cymru yng Nghaerdydd. Mae nifer o’r dosbarthiadau’n cael eu rhedeg gan fydwragedd ac maent am ddim.

Fel y crybwyllwyd eisoes, mae’r dosbarthiadau ESOL ar gyfer Beichiogrwydd yng Nghanolfan De Glanyrafon wedi’u hanelu yn benodol at y menywod anoddaf i’w cyrraedd o’r gymuned De Ddwyrain Asia leol. Yn wyneb gwrthwynebiad, yn enwedig gan famau yng nghyfraith a dynion y teulu, mae’r fenter wedi llwyddo i gynnwys y menywod hyn yn eu cymuned ehangach ac i gynnig platfform iddynt gymryd rheolaeth dros eu cyrff eu hunain. Mae’r dosbarthiadau yn rhoi cyfle i’r menywod gyfarfod darpar famau eraill o’r gymuned De Ddwyrain Asia yn Ne Glanyrafon ac i nifer ohonynt, dyma’r tro cyntaf iddynt ddod i gysylltiad â’r Saesneg. Prin iawn os o gwbl y bydd nifer o’r menywod sydd yn mynychu’r dosbarthiadau yn gadael eu cartrefi ar eu pennau’u hunain. Hefyd, fel y soniwyd eisoes mae iechyd gwael, yn cynnwys iechyd meddwl gwael, hunan laddiad a hunan niwed yn cael eu hystyried yn broblemau sylweddol i fenywod De Asiaidd yn enwedig i fenywod ifanc (Anand a Cochrane, 2005). Mae’r dosbarthiadau ESOL ar gyfer Beichiogrwydd yn rhoi cyfle i fenywod gael rhyngwyneb gydag awdurdodau iechyd a chael gafael ar wybodaeth, cefnogaeth a gwasanaethau sydd yn briodol i’w hanghenion iechyd ehangach.

## 6.5 Datblygiadau yn y Dyfodol

### *ESOL a Dysgu Teulu Cyfochrog*

Mae Llywodraeth y DU yn hyrwyddo rhaglenni dysgu teulu ESOL fel dull pwysig o greu rhagor o gynhwysiad cymdeithasol (Adran Addysg a Sgiliau 2005a). Mae polisi ac ymarfer cyfredol yn tanlinellu pwysigrwydd cyfranogiad rhieni yn nysgu eu plant ac yn gynyddol mewn cymryd rhan mewn ffurfio a chynllunio gweithgareddau mewn cyrff gofal plant ac ysgolion (Adran Addysg a Sgiliau 2005a, Adran Addysg a Sgiliau 2005b). Mae Llywodraeth y DU yn cadarnhau bod dysgu teulu yn gwneud cyfraniad pwerus i gyflawniad addysgol pant yn ogystal â manteision i deuluoedd ac i'r ysgolion lle mae'r plant yn dysgu. Mae dysgu teulu hefyd yn creu cyfleoedd i rieni ddatblygu eu sgiliau iaith eu hunain yn ogystal â'u gallu i gynorthwyo i godi cyflawniadau a dyheadau addysgol eu plant.

Mae Canolfan Datblygu a Chymunedol De Glanyrafon wrthi'n datblygu ymagwedd neilltuol o arloesol tuag at ddysgu teulu, y maent yn ei alw'n '*Dysgu Cyfochrog'*. Tra bod nifer o gyrsiau ESOL yn cael eu cynnal yn y Ganolfan, roedd y bobl yn Ne Glanyrafon yn poeni bod teuluoedd yn y cartref yn troi'n ôl at eu mamiaith. Er mwyn delio â'r broblem hon ceisiodd Canolfan Datblygu a Chymunedol De Glanyrafon, ar y cyd gydag ysgol gynradd leol, nodi ffyrdd o 'fynd â dysgu Saesneg i'r cartref'. I'r diben hwn mae'r Ganolfan yn ystyried gweithredu rhaglen yn y Ganolfan i rieni sydd yn adlewyrchu addysg eu plant yn yr ysgol. Yn y dull hwn mae'r rhaglen yn cynnig cyfle i'r rhieni ddatblygu eu sgiliau Saesneg eu hunain ymhellach yn ogystal â chynyddu eu gallu i gefnogi eu plant gyda'u gwaith cartref a hybu cynnydd eu plant. Mae'r rhaglen yn cael ei dyfeisio mewn ffordd sydd yn cynyddu gwybodaeth y rhieni o'r system addysg yng Nghymru ac ar yr un pryd yn cefnogi athrawon a rhieni i drafod ffiniau diwylliannol. Mae Canolfan Datblygu a Chymunedol De Glanyrafon ac ysgol gynradd leol yn gobeithio treialu'r rhaglen gyda dosbarthiadau meithrin a derbyn cyn diwedd blwyddyn ysgol 2008/09.

## 7. CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

Mae'r adran hon yn ffurfio casgliadau o'r prosiect ymchwil ac yn gwneud nifer o argymhellion. Mae'r argymhellion wedi'u hanelu'n bennaf at Lywodraeth y Cynulliad fel y corff etholedig gyda'r mwyaf o bwerau i greu newid. Ond mae rhai o'r argymhellion wedi'u hanelu at gyrff sydd yn ymwneud â chyflwyno ESOL ac at randdeiliaid eraill, neu mae oblygiadau ynddynt i'r cyrff hynny. Gan dynnu ar dystiolaeth a gasglwyd yn y prosiect hwn, mae'r adran hon wedi'i threfnu'n ddwy ran. I ddechrau, mae'n edrych ar y gwersi y gellir eu dysgu o ymarfer da yn y sector gwirfoddol ac mae'r ail yn gwneud argymhellion mwy cyffredinol wedi'u hanelu at wella cyflwyniad ESOL.

**Beth y gellir ei ddysgu gan gyrff sector gwirfoddol sydd yn cyflwyno ESOL?**

Cysylltodd y prosiect hwn gyda nifer fawr o gyrff sector gwirfoddol (Gweler Atodiad 1 am y manylion llawn) sydd yn gweithio gyda dysgwyr mewn rhai o'r amgylchiadau mwyaf heriol. Mae'r sector gwirfoddol mewn sefyllfa dda i ymateb i anghenion ESOL newidiol parhaus yr unigolion a'r cymunedau yng Nghymru, trwy ei weithwyr allgymorth a datblygu sydd yn gweithio yn y gymuned. Mewn gwirionedd, fel rheol mae cyrff gwirfoddol yn cael eu sefydlu'n uniongyrchol mewn ymateb i angen sydd wedi'i nodi yn eu cymunedau; '*Rydym yn rhanddeiliaid yn y gymuned'.* Mae staff allgymorth a datblygu yn creu perthynas o ymddiriedaeth dros gyfnodau hir o amser ac maent yn neilltuol o effeithiol o ran cynnwys dysgwyr o'r cymunedau mwy sefydledig na fyddent fel arall yn cymryd rhan mewn dysgu; '*Mae cyrff sector gwirfoddol yn targedu dysgwyr neilltuol, rydym yn rhwydweithio trwy ddefnyddio ein gwirfoddolwyr'.*

Tra bod y dysgwyr hyn yn gallu profi anawsterau wrth gael gafael ar ddarpariaeth dysgu, mae cyrff gwirfoddol wedi cael llwyddiant sylweddol mewn rhai meysydd, yn bennaf oherwydd yr ymagwedd hir dymor tuag at waith allgymorth cymunedol. Yn aml mae'n well gan y dysgwyr hyn ddarpariaeth cymunedol all fod yn ddrutach i'w ddarparu ac yn rhywbeth sydd yn cymryd amser: '*Mae lleoliadau cymunedol yn fwy hygyrch i'n dysgwyr. Hefyd dydyn ni ddim yn defnyddio'r gair 'dosbarth' na 'chwricwlwm'; rydym yn defnyddio'r geiriau 'prosiectau' a 'gweithgareddau'.*

Yn aml mae gan y dysgwyr hyn anghenion cymhleth hefyd gan nad ydynt wedi dysgu am gyfnod maith, os o gwbl, ac efallai mai sgiliau llythrennedd cyfyngedig sydd ganddynt, os o gwbl. Os felly gall dysgu ochr yn ochr â dyfodiaid mwy diweddar gyda lefel uwch o lythrennedd fod yn rhwystr mawr. Dyma lle mae ESOL sydd wedi'i deilwra i anghenion yr unigolyn, neu wedi'i gynnwys mewn darpariaeth arall yn hollbwysig. Gwelsom lawer o dystiolaeth o ymarfer effeithiol, yn enwedig dysgu teulu.

***Partneriaeth***

Roedd cyrff sector gwirfoddol oedd yn rhan o'r prosiect hwn yn croesawu ac yn annog gweithio mewn partneriaeth, er y mynegwyd pryderon am yr anawsterau yr oedd rhai cyrff llai yn eu wynebu o ran problemau gallu. Roedd cyrff sector gwirfoddol hefyd yn wynebu rhwystrau sylfaenol wrth geisio gweithio mewn partneriaeth, er enghraifft lle nad yw cyrff yn gallu cynnig achredu eu hunain roeddent yn awyddus i weithio gyda cholegau neu ddarparwyr eraill i wneud hynny. Fodd bynnag, nid yw rhai colegau yn fodlon achredu dysgwyr o gyrff eraill oni bai bod y dysgwyr yn ymrestru yn llawn amser yn y coleg. Yn aml ni all y dysgwyr hyn wneud hynny yn enwedig os yw eu statws yn golygu na allant dderbyn cyllid cyhoeddus. Cafwyd enghreifftiau hefyd o bartneriaethau'n goresgyn rhwystrau o'r fath, er enghraifft gwaith MEWN gyda Choleg Abertawe.

***Dysgu Anffurfiol***

Mae dysgu 'camau cyntaf' anffurfiol yn agwedd neilltuol o bwysig o'r cynnig dysgu wrth weithio gydag unigolion a chymunedau ar yr ymylon neu sydd heb gymryd rhan o'r blaen mewn dysgu. Mae'r sector gwirfoddol hefyd yn cynnig ystod o gyfleoedd dysgu anffurfiol i ddysgwyr sydd yn cymryd rhan mewn ESOL mwy ffurfiol i gefnogi ac/neu i ategu eu dysgu, a dylid annog grwpiau  sgwrsio anffurfiol (e.e. Grwpiau Ffrindiau neu Gymdogion). Lle mae dysgwyr yn gorfod aros yn hir i gael mynediad i ddarpariaeth ESOL mae cyfleoedd dysgu anffurfiol a gynigir gan y sector gwirfoddol yn darparu pont bwysig, yn cynyddu hyder, yn hwyluso gweithgarwch cymdeithasol ac yn cyfrannu at gydlyniant cymunedol ymysg pethau eraill.

### *Technoleg*

Gall y defnydd o dechnoleg fel rhan o ddarpariaeth ESOL fod yn fanteisiol. Gall fod yn effeithiol o ran cynnwys dysgwyr sydd yn cael anhawster gyda chyflwyniad ‘dosbarth’ traddodiadol neu sydd â chyfrifoldebau sydd yn cyfyngu ar eu gallu i fynychu dosbarthiadau yn rheolaidd (er enghraifft gofalu am blant neu berthnasau). Mae hefyd yn annog dysgwyr i ehangu eu sgiliau a gall yn aml arwain at ddysgu pellach.

Roedd y cyrff gwirfoddol oedd yn rhan o’r prosiect hwn yn defnyddio technoleg mewn nifer o ddulliau arloesol; er enghraifft defnyddio ffonau symudol/negeseuon testun i gadw mewn cysylltiad â thiwtoriaid, defnyddio chwaraewyr MP3 i ymarfer sgiliau gwrando a siarad a defnyddio Learndirect. Mae defnyddio technoleg yn gost effeithiol hefyd ac mae llawer o ddeunyddiau am ddim ar gael y mae angen gwneud gwell defnydd ohonynt.

### *Gwirfoddoli*

Mae nifer o’r dysgwyr sydd yn derbyn ESOL trwy gorff sector gwirfoddol yn gwirfoddoli ar gyfer y corff wedi hynny, yn aml oherwydd yr awydd i helpu eraill fel nhw’u hunain. Gwelodd y prosiect hwn enghreifftiau o hyn gan Gyngor Ffoaduriaid Cymru, Cymdeithas Swdan, y Groes Goch, BEN a MEWN. Roedd pob un yn tanlinellu pwysigrwydd gwirfoddolwyr i’w cyrff:

*‘Mae nifer o’n staff yn wirfoddolwyr – maent wedi bod yno, wedi’i gyflawni ac maent eisiau dod yn ôl i helpu eraill. Mae ganddynt eu cyfoeth eu hunain o brofiad’.*

Mae gwirfoddolwyr yn chwarae rôl hynod o bwysig; yn aml yn gweithredu fel gweithredwyr ymroddedig dros hawliau dysgwyr, bod yn fodelau rôl a chefnogi dysgwyr sydd yn aml yn fregus ac sydd ag anghenion cymhleth. Mae gwirfoddoli gyda chorff sydd yn cyflwyno ESOL felly yn bwysig ynddo’i hun ac mae llawer o’r gwaith da a gyflawnir gan gyrff sector gwirfoddol yn dibynnu ar ewyllys da eu gwirfoddolwyr. Gall hefyd gynnig cam cyntaf i gyflogaeth i’r gwirfoddolwyr eu hunain. Fodd bynnag, byddai cyrff sector gwirfoddol yn croesawu rhagor o gysylltiadau gyda gwahanol gyrff fel bod mwy o gyfleoedd gwirfoddoli ar gael i’w gwirfoddolwyr.

**Argymhellion:**

***Effaith ESOL***

Mae ESOL yn bwnc o bwysigrwydd mawr, nid yn unig o ran polisi yn gysylltiedig ag addysg a sgiliau, ond hefyd o ran agendâu polisi llawer ehangach sydd yn gysylltiedig â phynciau cyfiawnder cymdeithasol, cydlyniant cymdeithasol a chymunedol, dinasyddiaeth ac adfywiad cymdeithasol ac economaidd. Mae gan ddysgwyr ESOL fywydau cymhleth ac maent yn wynebu problemau yn gysylltiedig gydag addysg, iechyd, gwaith, mewnfudo, setlo, integreiddio, dinasyddiaeth, adfywio cymdogaeth, ymladd hiliaeth a chydlyniant cymunedol**.** Mae gan ddysgu rôl neilltuol o bwysig i'w chwarae mewn arfogi unigolion gyda'r sgiliau y maent eu hangen i wynebu problemau o'r fath a dod yn aelodau hapus ac iach o gymdeithas. Felly mae dysgu yn gwbl gysylltiedig gyda'r holl broblemau hyn ac ni ddylid ei ystyried fel rhywbeth ar wahân.

Argymhelliad 1

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sefydlu grŵp traws adrannol i sicrhau bod anghenion ESOL a chyfraniad darparwyr ESOL yn cael eu hystyried mewn perthynas â holl bolisïau a strategaethau'r llywodraeth. Dylai grŵp o'r fath weithio gyda darparwyr i ymateb i anghenion newidiol ac i ymateb i anghenion yng Nghymru.

Argymhelliad 2

Dylid ystyried ESOL fel sgil sylfaenol ac felly dylid ei ystyried fel rhywbeth sydd yr un mor bwysig â llythrennedd a rhifedd. Dylai ESOL felly barhau o fewn cylch gwaith Sgiliau Sylfaenol Cymru, ond dylai APADGOS  ystyried arweiniad polisi dysgu priodol ar gyfer ESOL o fewn yr adran.

***Cyllid***

Tra bod APADGOS ar hyn o bryd yn cyllido mwyafrif darpariaeth ESOL, mae cyrff hefyd yn derbyn cyllid gan adrannau eraill y llywodraeth, cyllid Ewropeaidd, cyllid loteri ac yn aml ffynonellau (elusennol yn aml) eraill. Mae darparwyr hefyd yn derbyn cyllid ar gyfer datblygiad staff a gwelliant ansawdd mewn perthynas  addysgu ESOL o amrywiol ffynonellau, yn aml o fewn APADGOS.

Yn ystod cyfnod y prosiect hwn mynegwyd pryder am lefel cyffredinol y cyllido ar gyfer ESOL sydd ei angen i ddiwallu alw cyfredol ac am ddarpariaeth ESOL yng nghyd-destun gostyngiad mewn cyllidebau ar gyfer dysgu ôl 19 oed yn gyffredinol. Mae'n amlwg bod gallu darparwyr i ymateb yn effeithiol i anghenion dysgwyr yn cael ei ddylanwadu gan gyfyngiadau cyllido. Gall hyn hefyd roi pwysau ar gyllidebau Addysg Oedolion a Chymunedol cyfredol, sydd yn cael ei ddwysau ymhellach gan y gwahanol bwysedd ar gyfer sgiliau sylfaenol ac ESOL ar hyn o bryd.

Mynegwyd pryder hefyd am y modd y mae cyllido ar hyn o bryd yn cael ei dargedu a byddai'r rhai a gymrodd ran yn y prosiect yn croesawu ymagwedd mwy systematig tuag at gasglu data am y galw/angen am ESOL (nid yw pob dysgwr yn mynegi galw), yn bennaf oherwydd natur ddeinamig mewnfudo yn y blynyddoedd diweddar.

Argymhelliad 3:
Dylai APADGOS weithio gydag adrannau eraill Llywodraeth y Cynulliad i gynyddu cyllid ar gyfer ESOL lle y mae mantais traws adrannol iddo.

Argymhelliad 4:
Dylai APADGOS sicrhau bod dulliau ar gyfer casglu data mewn perthynas ag ESOL yn gadarn a rhannu gwybodaeth gyda darparwyr mewn dull mwy ystyrlon i sicrhau eu bod yn gallu ymateb yn effeithiol.

Argymhelliad 5:
Dylai fod gweithio agosach rhwng timau/adrannau APADGOS. Ar hyn o bryd mae Sgiliau Sylfaenol Cymru'n darparu cyllid ar gyfer hyfforddi athrawon a thiwtoriaid llythrennedd, iaith a rhifedd (yn cynnwys ESOL). Ond dylai gwybodaeth glir a thryloyw fod ar gael i'r holl ddarparwyr ynglŷn â pha gyllid sydd ar gael ar gyfer yr holl hyfforddi a datblygu staff gan yr amrywiol adrannau a thimau yn APADGOS.

Argymhelliad 6:
Yng ngoleuni'r materion cyllido a nodwyd yn Adran 5.2, er mwyn delio gyda materion cyfartaledd gyda sgiliau sylfaenol dylid cynyddu codiad ESOL o 50% i 90% ar gyfer yr holl gyrsiau a gyllidir gan APADGOS ar lefel 1 neu is.

Argymhelliad 7:
Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru annog cyflogwyr i gyfrannu rhagor at gost ESOL ar gyfer eu gweithwyr trwy hyrwyddo'r manteision a ddaw yn ei sgîl i'w gweithlu a'u cynhyrchiant.

***Cefnogaeth***

Yn ystod cyfnod y prosiect hwn mynegodd nifer o ddarparwyr oedd wedi'u cyllido gan APADGOS bryder am eu gallu i gynnig cefnogaeth briodol i ddysgwyr i'w galluogi i fanteisio ar gyfleoedd dysgu ESOL. Mynegodd y rhan fwyaf o ddarparwyr bryder neilltuol am ofal plant. Mewn sawl enghraifft lle roedd gofal plant yn cael ei gynnig roedd wedi'i ategu gan gyllid ESF neu wedi'i staffio gan wirfoddolwyr. Er gwaethaf argaeledd cyllid trwy gyfrwng APADGOS ar gyfer y math hwn o gefnogaeth (er enghraifft trwy linyn Cefnogaeth i Ddysgwyr y System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol ac yn fwy cyffredinol, codiad amddifadedd y llinyn darpariaeth i ddysgwyr) roedd problemau sylweddol yn parhau o ran darparu'r lefel briodol o gefnogaeth.

Argymhelliad 8:
Dylai APADGOS ymchwilio i ddefnydd darparwyr o gyllid y maent yn ei dderbyn trwy System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol: nodi'r rhesymau pam fod ymarferwyr yn cael anawsterau i gael gafael ar gyllid lle mae angen cydnabyddedig.

***Hyfforddi a datblygu staff***

Mynegodd y cyrff a gymrodd ran yn y prosiect hwn bryder am y diffyg staff cymwysedig a phrofiadol addas angenrheidiol i gyflwyno ESOL. Roedd hyn hefyd wedi'i amlygu mewn ymchwil diweddar a gynhaliwyd gan GHK (2008) ac Estyn (2008). Yn ogystal â'r pryder am y nifer o staff angenrheidiol i ddiwallu galw cyfredol, mynegwyd pryder bod Cymru yn llusgo yn gynyddol y tu ôl i Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon o ran datblygu gweithlu ESOL. Mae'n ymddangos mai ychydig o fuddsoddi sydd yn digwydd mewn datblygu proffesiynol ar gyfer tiwtoriaid ac athrawon ESOL yng Nghymru ac mae darparwyr yn adrodd am amrywiad mawr yn ansawdd a chynnwys y Datblygiad Proffesiynol Parhaus a gyflwynir ar hyn o bryd i diwtoriaid ESOL.

Yn aml mae amodau cyflogaeth tiwtoriaid ESOL (sydd fel rheol yn rhan amser) yn aml yn wael ac mae cadw staff yn broblem. Dywedodd un awdurdod lleol wrthym eu bod wedi colli 21 o diwtoriaid ESOL mewn blwyddyn. Gall hyn effeithio'n uniongyrchol ar ansawdd cyflwyniad ac mae parhad staff sydd yn gweithio gyda dysgwyr bregus yn bryder neilltuol.
Er gwaethaf hyn, mae cyrff yn adrodd bod staff fel rheol yn hynod o ymroddedig i'w gwaith. Mae staff yn y sector gwirfoddol yn arbennig yn dweud eu bod yn parhau'n ymroddedig er gwaethaf y pwysau a'r galwadau cyfredol.

*'Dewisais weithio i'm sefydliad oherwydd diwylliant a theimlad y lle. Gallwn ennill rhagor o arian yn rhywle arall ond rwy'n dewis gweithio yma – mae hynny'n creu diwylliant arbennig ymysg y staff. Rydym yn ymroddedig i'n gwaith'.*

Argymhelliad 9:
Dylai APADGOS sicrhau bod y Fframwaith Cymwysterau ar gyfer athrawon, tiwtoriaid a hyfforddwyr sydd wedi'i ddatblygu, yn cael ei weithredu cyn gynted â phosibl. Yna dylai cyllid ar gyfer y datblygiad staff angenrheidiol fod ar gael.

Argymhelliad 10:
Dylid hwyluso rhaglen o hyfforddi'r hyfforddwyr i sicrhau cysondeb yn ansawdd y Datblygiad Proffesiynol Parhaus a gyflwynir. Awgrymir y dylai'r Adran Gwelliant Dysgu a Datblygiad Proffesiynol o fewn APADGOS arwain ar hyn.

Argymhelliad 11:
Dylai partneriaethau ystyried y defnydd o diwtoriaid llawn amser ar draws amrywiaeth o safleoedd neu brosiectau i wella'r telerau ac amodau sydd ar gael i staff, a dylai APADGOS weithio gyda darparwyr i rannu enghreifftiau o'r ymarfer da hwn lle mae'n bodoli ar hyn o bryd yn ehangach.

**Llyfryddiaeth:**

Adran Addysg a Chyflogaeth (2000) *Breaking the Language Barriers: The Report of the Working Group of English for Speakers of Other Languages;* Llundain: Adran Addysg a Chyflogaeth.

Adran Addysg a Chyflogaeth (2005a) *Skills for Families:* Llundain: Adran Addysg a Sgiliau.

Adran Addysg a Chyflogaeth (2005b) *Extended Schools: Access to services and opportunties for all. A prospectus;* Llundain: Yr Adran Addysg a Sgiliau.

Altman, D.G. (et al) (1991) 'Obstacles to and future goals of ten comprehensive community health promotion projects', *Journal of Community Health;* 16, 6: 299-314.

Anand, A.S a Cochrane, R. (2005) 'The mental health status of South Asian women in Britain', *Psychology and Developing Societies;* 17,2: 195-214.

Aston, J. (et al) (2007) *Pakistani and Bangladeshi women's attitudes to work and family;* Adroddiad Ymchwil Rhif 458. Llundain: Adran Gwaith a Phensiynau.

Bamberger, M. a Cheema, S. (1990) *Case Studies of Project Sustainability: Implications for policy and operations from Asian experience;* Sefydliad Datblygu Economaidd, Washington DC: The World Bank.

Barton, D. a Pitt, K. (2003) *Adult ESOL Pedagogy: A Review of Research, An Annotated Bibliography and Recommendations for Future Research;* Llundain: NRDC.

Baynham, M. (et al) *Effective Teaching and Learning ESOL;* Llundain: NRDC

Burman, E., Chantier, K. a Batsieer, J. (2002) 'Service responses to South Asian women who attempt suicide or self-harm: Challenges for service commissioning and delivery', *Critical Social Policy;* 22: 641-668.

Burr, J. (2002) ‘Cultural stereotypes of women from South Asian communities: Mental health care professionals’ explanations for patterns of suicide and depression’, *Social Science and Medicine;* 55: 835-845.

Casey, H. (et al) (2006) ‘*You wouldn’t expect a maths teacher to teach plastering ... Embedding literacy, language and numeracy in post-16 vocational programmes – The impact on learning and achievement;* Llundain, NRDC

Comisiwn Archwilio (2007) *Crossing Borders: Responding to the Local Challenges of Migrant Workers;* Llundain: Comisiwn Archwilio

Comisiwn Integreiddio a Chydlyniad (2007) *Our Shared Future;* Llundain, Comisiwn Integreiddio a Chydlyniad.

Cyngor Ar Bopeth (2005) *Supporting Migrant Workers in Rural Areas: A Guide to Citizens Advice Bureaux Initiatives;* Llundain; Cyngor Ar Bopeth.

Cyngor Ffoaduriaid (2005) *The forbidden workforce: Asylum seekers, the employment concession and access to the UK labour market;* Cyngor Ffoaduriaid: Llundain.

Dalziel, D. a Sofres, T.N. (2005) *Qualitative Evaluation of the ESOL Pathfinder Projects;* Llundain DfES.

Eldred, J. (2005) *Developing Embedded Literacy, Language and Numeracy: Supporting Achievement;* Caerlŷr, NIACE.

Estyn (2005) *English for Speakers of Other Languages: The Impact of Increased Demand;* Caerdydd, Estyn.

GHK (2008) *Review of ESOL in Wales;* Drafft Adroddiad.
Goodman, R. M. a Stckler, A.B. (1989) ‘A framework for assessing program institutionalization’, *Knowledge in Society: The International Journal of Knowlege Transfer;* 2; 57-51.

Hall, K. (et al ) (2004) *Diversity and Difference: Minority Ethnic Mothers and Childcare:* Llundain, Uned Cydraddoldeb Menywod.

Hamilton, M. a Merrifield, J. (2000) ‘Adult learning and literacy in the United Kingdom’ yn J. Comings, B. Garner a C. Smith (gol) *NCSALL Annual Review of Adult Learning and Literacy; San Francisco;* Jossey-bass.

Ivanic, R. (et al) (2006) *Linking Learning and Everyday Life: A Social Perspective on Adult Language, Literacy and Numeracy Classes;* Llundain: NRDC.

Learning Link Scotland (2007) *Esol in Scotland’s Voluntary Sector;* Caeredin: LLS

McKay, S., Craw, M. a Chopra, D. (2006) *Migrant Workers in England and Wales: An assessment of migrant worker health and safety risks;* Llundain: Gweithrediadaeth Iechyd a Diogelwch.

Moser, C. (1999) *A Fresh Start: Improving Literacy and Numeracy;* Llundain: Adran Addysg a Chyflogaeth.

Muralidharan, K. (2007) ‘Painful secrets: A qualitiative study into the reasons why young women self-harm’. Prosiect Menywod Asiaidd Newham, Llundain.

NIACE (2008) *Toolkit for Practitioners and Managers: Working with Black and Minority Ethnic Adult Learners;* Caerlŷr, NIACE. (Mewn print)

NIACE (2006) *More Than A Language ..;* Caerlŷr: NIACE.

O’Leary, D. (2008) *A Common Language: Making English Work for London;* Llundain, Demos.

ODPM (2005) *Improving Services, Improving Lives: Evidence and Key Themes;* Llundain: Uned Dieithrio Cymdeithasol.

Ofsted (2008) *ESOL in the post-compulsory learning and skills sector: An evaluation;* Llundain: OFSTED.

Ofsted (2005) *Raising the achievement of bilingual learners;* Llundain: Ofsted.

Roberts, C. (et al) (2005) *English for Speakers of Other Languages (ESOL): Case studies of provision, learners' needs and resources;* Llundain, NRDC.

Rosenberg, S. K. (2008) *A critical history of ESOL in the UK: 1870-2006;* Caerlŷr: NIACE.

Schuller, T. (et al) (2004) *The Benefits of Learning;* Routledge Falmer.

Sunderland, H. (2006) *Teacher Education.* Papur heb ei gyhoeddi a gyflwynwyd i Ymholiad ESOL NIACE.

Tackey, N. D. (et al) 2006) *Barriers to Employment for Pakistanis and Bangladeshis in Britain;* Adroddiad Ymchwil DWPRR 360. Llundain: Adran Gwaith a Phensiynau.

TUC (2007) *The Economics of Migration: Managing the Impacts;* Llundain: TUC.

TUC (2003) Overworked, Underpaid and Over Here: Migrant Workers in Britain; Llundain: TUC.

Ward, J. a Spacey, R. (2008) *Dare to Dream: Learning Journeys of Bangladeshi, Pakistani and Somali Women;* Caerlŷr: NIACE

Winckler, V. (2007) *One Workforce: Migrant Workers in Wales – A Trade Union Report;* Caerdydd: TUC Cymru.

Ystadegau Cymru (2007) *Statistics on Migrant Workers in Wales.* http://wales.gov.uk/docrepos/40382/40382313/statistics/economy/sa11a.pdf?=langcy

**Atodiad 1**

## ESOL a'r Sector Gwirfoddol

| | |
|---|---|
| Enw | |
| Corff | |
| Rôl yn y corff | |

*Nodwch pa sector/math o gorff yr ydych yn ei gynrychioli:*

| | |
|---|---|
| Sector gwirfoddol (corff mawr/cenedlaethol) | |
| Sector gwirfoddol (corff bach/lleol) | |
| Coleg Addysg Bellach | |
| Sefydliad Addysg Uwch | |
| Awdurdod Lleol | |
| Dysgu yn y gwaith | |
| Arall (Nodwch os gwelwch yn dda) | |

*Pa ddulliau ydych chi'n eu defnyddio i recriwtio dysgwyr?*

| |
|---|
| |

*Beth yw'r tri strategaeth mwyaf effeithiol a ddefnyddiwch i recriwtio dysgwyr? Pam bod y rhain yn gweithio?*

| | Dull | Pam bod hyn yn llwyddiannus? |
|---|---|---|
| 1 | | |
| 2 | | |
| 3 | | |

Beth yw'r prif rwystrau y mae'n rhaid i ddysgwyr eu goresgyn er mwyn mynychu'r ddarpariaeth a gynigiwch?

*Rhowch DDWY enghraifft o leiaf o'r gefnogaeth yr ydych yn ei ddarparu i'w helpu i oresgyn y rhwystrau hyn.*

*Pa strategaethau ydych chi yn eu defnyddio i gefnogi'r dysgwyr i AROS ar y cwrs/parhau i ddysgu?*

***Diolch am lenwi'r ffurflen hon. Bydd yn gymorth i lywio ein trafodaeth ar 10 Rhagfyr. Dychwelwch trwy e-bost at Julian.hunt@niacedc.org.uk***

**Atodiad 2**

| | Corff | Enw | Gwefan | Disgrifiad |
|---|---|---|---|---|
| Gogledd | | | | |
| | Coleg Glannau Dyfrdwy | Sara Bishop/Michelle Turner | www.deeside.ac.uk | Yn 2007 ni oedd y coleg cyntaf yng Nghymru i dderbyn Gradd 1 gan Arolygwyr Estyn am bob agwedd o'n perfformiad ar draws ein darpariaeth addysg bellach a dysgu yn y gwaith. |
| | Coleg Iâl | Andrew Edwards/Moria Edwards/Sarah Williams | www.yale-wrexham.co.uk | Mae Coleg Iâl, sydd yn goleg trydyddol eithriadol yn y DU, yn adnabyddus am gyflwyno rhagoriaeth mewn addysg bellach ac uwch. Mae ei ganlyniadau trawiadol a'i gyfleusterau o'r math diweddaraf yn y celfyddydau yn denu dros 14,000 o fyfyrwyr bob blwyddyn i gyflawni'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth ac astudiaeth pellach. Yn ogystal â darparu addysg a hyfforddiant i'r rhan fwyaf o bobl ifanc ôl 16 oed yn yr ardal, mae'r Coleg ar y blaen o ran hyfforddiant i oedolion, nid yn unig i ddiwallu dyheadau unigol ond hefyd i wasanaethu anghenion staffio economi amrywiol a chynyddol Wrecsam. |
| | Coleg Llandrillo | Helen Smith | www.llandrillo.ac.uk | Gyda champws ym Mae Colwyn, Abergele, Dinbych, y Rhyl, 'Glasdir' yn Llanrwst, canolfan cefnogi busnes arbenigol yn Llanelwy a bron i 200 o leoliadau dysgu ar |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | draws Conwy a Sir Ddinbych mae'r Coleg yn cyflwyno amrediad rhagorol o gyrsiau Addysg Bellach a chyrsiau lefel prifysgol, y cyfan yn darparu llwybrau i yrfaoedd neu i astudiaeth lefel uwch. Rhoddir sylw neilltuol i gefnogi ein myfyrwyr, gwrando arnynt a'u harwain trwy'r profiad o Goleg. |
| | Coleg Meirion Dwyfor | Kath White | www.meirion-dwyfor.ac.uk | |
| | Coleg Llysfasi | Clare Willain | www.lysfasi.ac.uk | Mae gan y coleg ddau brif gampws, Llysfasi ger Rhuthun a Hyfforddiant Wrecsam ym Melin Puleston, Wrecsam. Mae Coleg Llysfasi yn cefnogi dysgu gydol oes ac addysg yn y gymuned ac mae'n cynnig nifer o gyrsiau mewn amrywiol ganolfannau allgymorth ar draws Dyffryn Clwyd, Dyffryn Dyfrdwy ac arfordir Gogledd Cymru. |
| | Cyngor Sir Caerdydd | Rhian Anderson | www.cardiff.gov.uk | Sir Caerdydd yw'r fwyaf yng Nghymru o ran poblogaeth ac mae'r Cyngor yn cyflwyno gwasanaethau i tua 320,000 o bobl. Mae Caerdydd, fel yr holl awdurdodau eraill yng Nghymru yn gweithredu ar strwythur gweithredol modern. Mae gan y Cynghorwyr sydd wedi'u hethol ar y Weithrediaeth ystod o gyfrifoldebau sydd yn ychwanegol at eu dyletswyddau fel Cynghorwyr. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Coleg Ystrad Mynach | Samantha Anthony | www.ystrad-mynach.ac.uk | Agorwyd Coleg Ystrad Mynach yn 1959 i ddiwallu anghenion y diwydiant glo lleol. Ers yr 1970au mae'r cwricwlwm wedi ehangu i gynorthwyo gydag amrywiaeth a datblygiad yr ardal. Mae'r Coleg yn gweithio'n agos gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i wella dyfodol economaidd y Sir. |
| | Torfaen | Linda Bailey | www.torfaen.gov.uk | |
| | Ysgolion Bro Torfaen | Rhiannon Bennett | | Ysgol Fro yw ysgol sydd yn darparu amrediad o wasanaethau a gweithgareddau, yn aml y tu hwnt i'r diwrnod ysgol, i ddiwallu anghenion ei disgyblion, teuluoedd a'r gymuned ehangach (Ysgolion Bro – Cylchlythyr Canllaw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003) |
| | Caerdydd | Deb Evans | | |
| | Caerdydd | Swinder Chadha | | |
| | Prifysgol Cymru Casnewydd | Jenny Cann | www3.newport.ac.uk | |
| | Coleg Glan Hafren | Michelle Hiller-Foster/Rob Parkin | www.glan-hafren.ac.uk | Nod Coleg Glan Hafren yw eich rhoi chi, y dysgwr, wrth galon popeth a wnawn a chynnwys pawb yn y profiad o ddysgu. Ni yw coleg addysg bellach mwyaf Caerdydd, ar bedwar safle gydag 800 o gyrsiau a 13000 o fyfyrwyr o bob gallu dysgu a chefndir, yn amrywio o 16 oed i 80 oed. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Glamorgan Gates | Lesley Hodgson | Cell.glam.ac.uk/ Projects/glamorgangates | Mae Glamorgan GATES yn bartneriaeth rhwng Prifysgol Morgannwg ac Uned Cymunedau'n Gyntaf Llywodraeth y Cynulliad. Mae'n gysyniad – 'porth' rhwng y brifysgol a'r gymuned – ac yn bresenoldeb real – Canolfan GATES – ym Merthyr Tudful. |
| | Coleg Morgannwg | Elizabeth Horrocks | www.morgannwg.ac.uk | |
| | Llyfrgell Pontypridd | Lindsay Morris | www.rhondda-cynon-taff.gov.uk | |
| | Coleg Gwent | Maliika Kaaba | www.coleggwent.ac.uk | Mae Coleg Gwent, y coleg addysg bellach mwyaf yng Nghymru, yn cynnig ystod eang o gyfleoedd i'ch helpu i ddarganfod y cwrs sydd yn iawn i chi. Bob blwyddyn mae miloedd o fyfyrwyr yn ymrestru yn un o chwe campws y Coleg i astudio un o'r cannoedd o gyrsiau sydd ar gael |
| | Mind Merthyr a'r Cymoedd | Debra Roberts | www.mind.org.uk | Mind yw'r prif elusen iechyd meddwl yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn gweithio i greu bywyd gwell i bawb sydd wedi profi anhwylder meddyliol |
| | Blaenau Gwent | Karen Ross | | |
| | Caerdydd | Robina Samuddin | | |
| | Caerdydd | | www.westa.co.uk | Mae Westa Essential Skills Training yn ganolfan hyfforddi sgiliau sylfaenol annibynnol cymunedol sydd yn cynnig hyfforddiant Cyfrifiadurol Ymarferol a Sgiliau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | ar gyfer Bywyd ESOL. Mae ein cyrsiau yn ymestyn o'r Lefel Sylfaenol i ddosbarthiadau uwch. Rydym yn anelu yn benodol at hyfforddi oedolion mewn sgiliau allweddol a chyrsiau galwedigaethol. |
| | Siawns Teg | Tony Blunden | www.siawnsteg.co.uk | Rydym yn cefnogi pobl sydd, neu sydd yn credu eu bod wedi'u heithrio o'u cymuned leol. Rydym yn gweithio gyda chyrff statudol, cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat i wella cyfleoedd i bobl i gysylltu gyda nhw. Mae'r rhan fwyaf o'n gwaith yn esblygu o gwmpas dau grŵp penodol. |
| | Trefaldwyn Powys | Jily Kibble | www.montogmery-powys.co.uk | |
| | Aberystwyth | Grace Hagen | | |
| Gorllewin | | | | |
| | Amgueddfa Genedlaethol y Glannau | Sue James | www.museumwales.ac.uk | Mae Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe yn adrodd stori diwydiant ac arloesi yng Nghymru, heddiw a dros y 300 mlynedd diwethaf. Mae ein treftadaeth diwydiannol a morol helaeth yn barod i'w archwilio trwy gyfrwng technoleg rhyngweithiol ar flaen y gad ynghyd ag arddangosfeydd traddodiadol. Mae'n golygu bod profiad unigryw yn aros ymwelwyr i amgueddfa genedlaethol newyddaf Cymru |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Sir Benfro | Marilyn Miller | | |
| | Abertawe | Mike Burridge | www.swansea.gov.uk | |
| | Sir Benfro | | | |
| | Ceiswyr Lloches Bae Abertawe | Sadhbh O'Dwyer | www.croesoproject.org | Grŵp cymunedol yw SBASSG sy'n cael ei redeg gan geiswyr lloches, ffoaduriaid a phobl leol eraill. Sefydlwyd y grŵp yn 2000 pan gyhoeddwyd y polisi 'gwasgaru'. Ers hynny mae'r Swyddfa Gartref wedi anfon cannoedd o geiswyr lloches i Abertawe i aros am benderfyniad ar eu tynged. Mae nifer gynyddol yn setlo yma ar ôl derbyn statws. |
| | Blaenau Gwent | Sue Thorne | | |
| | YMCA Caerdydd | Jane Tucker | www.cardiffymcaha.co.uk | Mae Cymdeithas Tai YMCA Caerdydd yn Gymdeithas Tai elusennol ac yn Landlord Cymdeithasol Cofrestredig fel y'u cofrestrwyd gyda Llywodraeth y Cynulliad. Mae'n rheoli hosteli yn uniongyrchol yn ardal y Rhath yng Nghaerdydd. Mae'r hosteli'n darparu llety dros dro i bobl digartref o'r ddau ryw, o bob oedran ac o amrywiol gefndiroedd. Mae'r Gymdeithas hefyd yn darparu cefnogaeth i'r holl breswylwyr yn eu cais am lety parhaol yn ogystal â chefnogaeth ar gyfer ystod o anghenion eraill a nodwyd. Mae'r Gymdeithas hefyd yn rheoli prosiectau tai llai a gellir cael manylion am y rhain wrth ofyn amdanynt. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Grŵp Cefnogi Ceiswyr Lloches Bae Abertawe | | www.hafan.org | Grŵp cymunedol yw Grŵp Cefnogi Ceiswyr Lloches Bae Abertawe (SBASSG) sy'n cael ei redeg gan geiswyr lloches, ffoaduriaid a phobl leol eraill. Sefydlwyd y grŵp yn 2000 yn dilyn cyhoeddi polisi 'gwasgaru'r' Llywodraeth. |
| | Canolfan Bwyleg Llanelli | | | Mae'r Ganolfan Bwyleg yn Llanelli yn rhoi cefnogaeth holl bwysig i bobl sydd mewn sefyllfaoedd anobeithiol oherwydd triniaeth annheg gan asiantaethau cyflogaeth. Datblygwyd y Ganolfan o gwmpas cyfleuster undeb credyd sydd yn eiddo i, ac wedi'i reoli gan ei aelodaeth ei hun. Mae mwyafrif y bobl sydd yn defnyddio'r Ganolfan yn weithwyr mudol o Wald Pwyl a nifer llai o weithwyr o Lithwania. Mae'r rhan fwyaf o'r bobl hyn yn gweithio yn ac o gwmpas Llanelli – cynhyrchu bwyd, cartrefi gofal preifat ac mewn siopau. |
| | TUC | Barbara Hale/Sian Cartwright | www.tuc.org.uk | Gydag aelodau o'r undeb yn cynrychioli dros chwe miliwn a hanner o bobl mewn gwaith rydym yn ymgyrchu dros fargen deg yn y gwaith a thros gyfiawnder cymdeithasol gartref a thramor. |
| | Cyngor Ffoaduriaid Cymru | Gillian Lewis/Susan Jones | www.welshrefugeecouncil.org | Elusen annibynnol yw Cyngor Ffoaduriaid Cymru sydd yn galluogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches i ail adeiladu eu bywydau yng Nghymru. Rydym yn darparu cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth i geiswyr lloches a |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | ffoaduriaid mewn pedair swyddfa yng Nghaerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam |
| | Deudraeth Cyf | Keneuoe Morgan | www.deudraethcyf.co.uk | |
| | Y Groes Goch Brydeinig | Daniel Williams | www.redcross.org.uk | Rydym yn gorff dyngarol gwirfoddol sydd yn helpu pobl mewn argyfwng, pwy bynnag neu ble bynnag y maent. Dysgwch ragor am sut yr ydym yn helpu. |
| | Cymdeithas Rhyng-genhedlaeth Somli | Hodan Abokor | | |
| | ESOL The Parade | Helen Adams | http://www.cardiff.gov.uk/content.asp?nav=2869,3067,3924&parent_directory_id=2865&id=2142&pagetype=&keywrod | Gwasanaeth ESOL The Parade; dysgwch Saesneg ar eich lefel chi, dysgwch Saesneg i'ch helpu i ddeall ysgol eich plant, dysgwch Saesneg i'ch helpu trwy eich beichiogrwydd, dysgwch Saesneg i'ch helpu i fyw eich bywyd yn y DU, dysgwch Saesneg i'ch helpu i gael swydd, dysgwch Saesneg i fynd i'r coleg. |
| | Canolfan Cynnydd Somali | Abdi Adan | | |
| | BEN | Amina Ali | | |
| | Gwasanaeth Cymunedol Gwirfoddol | Amanda Blackwell/Gemma Davidson | www.volunteercardiff.co.uk | Y Gwasanaeth Cymunedol Gwirfoddol, y cyfeirir ato yn aml fel VCS, yw'r Ganolfan Gwirfoddoli ar gyfer sir Caerdydd. Rydym yn derbyn cyllid gan Gyngor Sir |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Caerdydd, cyllid craidd Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Canolfannau Gwirfoddoli, Gwirfoddolwyr y Mileniwm a Chomisiwn Russell. |
| | OCN Cymru | Christine Blewitt | www.ocnwales.org.uk | Mae'r Rhwydwaith Coleg Agored yn cefnogi dysgu ac yn ehangu cyfleoedd trwy gydnabod cyflawniad trwy gyrsiau credyd a chymwysterau ac mae'n gweithio mewn partneriaeth gyda cholegau, prifysgolion, canolfannau addysg oedolion a grwpiau cymunedol a chyflogwyr |
| | ContinYou Cymru | Angela Bliszko | www.continyou.org.uk | Mae ContinYou yn gweithio ar draws y DU a thu hwnt a ContinYou Cymru yw'r tîm arbennig sydd yn gweithio yng Nghymru i ddarparu gwasanaethau a gwybodaeth sydd yn diwallu agendau a blaenoriaethau penodol |
| | Llywodraeth Cynulliad Cymru | Andrew Clark/Bethan Webb | cymru.gov.uk | Llywodraeth Cynulliad Cymru sydd yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r materion sydd o bwys beunyddiol i bobl Cymru yn cynnwys yr economi, iechyd, addysg a llywodraeth leol |
| | Y Brifysgol Agored | Eleri Chilcott | www3.open.ac.uk | Y Brifysgol Agored yw'r unig brifysgol yn y DU sydd yn darparu'n benodol ar gyfer dysgu o bell |
| | Ymddiriedolaeth y Tywysog | Jane Davies/Janet O'Toole | Wwww.princes-trust.org.uk | Yn rhoi cefnogaeth ymarferol ac ariannol, yn datblygu sgiliau gweithle allweddol fel hyder a chymhelliant. Rydym yn gweithio gyda phobl |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | ifanc rhwng 14 a 30 oed sydd wedi cael trafferth yn yr ysgol, wedi bod mewn gofal, yn ddi-waith hir dymor neu wedi bod mewn helynt gyda'r gyfraith |
| | Sgiliau Sylfaenol Cymru | Annette Farr | www.basic-skills-wales.org | Ein nod yw cael dylanwad sylweddol ar ddatblygiad strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i wella sgiliau sylfaenol yn Saesneg ac yn Gymraeg. Rhagor am Strategaeth Sgiliau Sylfaenol Cenedlaethol Cymru |
| | Estyn | Gill Downer/Lisa Thomas | www.estyn.gov.uk/ | Estyn yw swyddfa Arolygaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Rydym yn wasanaeth arolygu annibynnol dan arweiniad Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| | Ufi Cyf | Emma Harvey | www.ufi.com | Mae sefydlu Ufi a'r ddau linyn o'r gwasanaeth learndirect – Sgiliau a Chymwysterau learndirect a Busnes learndirect – yn golygu bod y DU yn arwain y byd bellach ar ddysgu ar-lein i unigolion a gweithlu'r wlad. Trwy learndirect mae Ufi wedi galluogi miliynau o bobl ar draws Cymru a Lloegr a Gogledd Iwerddon i gael gafael ar ddysgu a chaffael |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | sgiliau newydd |
| | Gweithdy Menywod | Sadie Hayes | www.womensworkshop.org.uk | Mae’r Gweithdy Menywod yn ganolfan sefydledig sydd wedi bod yn gweithio ar lles menywod ers 1984. Rydym yn darparu ystod o wasanaethau sydd yn hyrwyddo cydraddoldeb rhyw a’n nod yw gwella bywydau a rôl menywod mewn cymdeithas. Mae gwasanaethau’n cynnwys hyfforddiant, ymgynghoriaeth a chefnogaeth i fenywod unigol, grwpiau a chyrff |
| | Cymunedau yn Gyntaf | Hamid Hicham | http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/regeneration/communitiesfirst/?lang=cy | Rhaglen flaenllaw Llywodraeth y Cynulliad yw Cymunedau yn Gyntaf i wella amodau byw a rhagolygon pobl yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru |
| | Dysgu a Chelfyddydau’r Ddraig | Carey Hill | www.dragonarts.co.uk | Mae Canolfan Celfyddydau’r Ddraig yn darparu dosbarthiadau celf a hyfforddiant am ddim a chyfleoedd i unrhyw un sydd wedi bod yn ddigartref neu sydd wedi dioddef eithrio cymdeithasol ac sydd efallai’n cael anhawster i gael gafael ar addysg prif ffrwd. Gwnawn hyn trwy gyfrwng ystod eang o weithgarwch a digwyddiadau ar y safle ac oddi ar y safle. |
| | Cydraddoldeb au Cymru | Gareth Hughes | www.equalityhumanrights.com | Mae’r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru yn hyrwyddo cydraddoldeb a |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | hawliau dynol i bawb, gan weithio i gael gwared ar wahaniaethu, lleihau anghyfartaledd, diogelu hawliau dynol ac adeiladu cysylltiadau da gan sicrhau fod gan bawb gyfle teg i gyfranogi mewn cymdeithas |
| | Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru | Emma King | www.hefcw.ac.uk | Sefydlwyd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ym mis Mai 1992 dan Ddeddf Addysg Uwch 1992. Ein cenhadaeth yw hyrwyddo addysg uwch rhagorol yng Nghymru yn rhyngwladol, er budd unigolion, cymdeithas a'r economi yng Nghymru a thu hwnt |
| | Academi | Bob Mole | www.academi.org | Yr Academi yw'r Asiantaeth Hyrwyddo Llenyddiaeth Cenedlaethol Cymreig a Chymdeithas Awduron. Mae'r Academi yn cynnal digwyddiadau, cystadlaethau (yn cynnwys Cystadleuaeth Barddoniaeth Rhyngwladol Caerdydd) cynadleddau, cyfnewid rhyngwladol, digwyddiadau i ysgolion, darlithoedd a gwyliau. Mae'r Academi hefyd yn gyfrifol am brosiect Bardd Cenedlaethol Cymru a Gwyddoniadur Cymru. Mae'r Academi yn gweithio gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Academi yn falch o fod wedi derbyn Gwobr Cwmni Disglair Cyngor Celfyddydau Cymru 2008-2010 |
| | WEA | Jane Murphy/Sian Thomason | www.wea.org.uk | Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (WEA) yw darparydd addysg oedolion gwirfoddol mwyaf y DU. Ers ei sefydlu ym 1903 i gefnogi anghenion addysgol dynion a menywod mewn gwaith mae'r WEA wedi cynnal ei ymrwymiad i ddarparu mynediad i addysg a dysgu i oedolion o bob cefndir ac yn enwedig y rhai sydd wedi colli allan ar addysg |
| | Llais Ffoaduriaid Cymru | Drazen Nozinic | www.refugeevoicewales.org | Corff ambarél yw Llais Ffoaduriaid Cymru sydd yn cynrychioli Cyrff Cymunedau Ffoaduriaid yng Nghymru. Sefydlwyd y corff i rymuso ffoaduriaid a cheiswyr lloches gan greu platfform fel bod lleisiau'r grwpiau hyn sydd yn aml yn fregus yn cael eu clywed. |
| | WEFO | Chris O'Connel | www.wefo.wales.gov.uk | Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn rhan o Lywodraeth y Cynulliad ac mae'n rheoli cyflwyniad rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru |
| | Dry Solutions | Sue Poole | | |
| | Educ8 | Carley Pritchard | www.educ8training.co.uk | Yn Educ8 rydym yn gorff sydd wedi ymrwymo i |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | gyflwyno hyfforddiant arbenigol ledled Cymru |
| | Barnados Stryd Neville | Sue Rees | www.barnados.org.uk | Mae Gwasanaeth Barnados Stryd Neville wedi'i leoli yng nghanol Caerdydd ac mae'n darparu ystod o wasanaethau i blant a theuluoedd bregus ac amddifadus o gymunedau Du a Lleiafrifoedd Ethnig |
| | Ofcom | Karen Roberts | www.ofcom.org.uk | Rydym yn gorff annibynnol sydd yn rheoleiddio sectorau darlledu telegyfathrebiadau a diwifr y DU. Rydym hefyd yn gosod ac yn gorfodi rheolau ar gystadleuaeth teg rhwng cwmnïau yn y diwydiannau hyn |
| | Cydlynydd Cafe | Naomi Roberts | | |
| | J H Training | Alison Saunders | | |
| | Coleg y Barri | Haydn Scoging | www.barry.ac.uk | Coleg Addysg Bellach yw Coleg y Barri ym Mro Morgannwg, De Cymru |
| | VALREC | Tara Sinclair | | |
| | PCS Cymru | Jayne Smith | www.pcs.org.uk | Undeb Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS) yw'r pumed undeb llafur mwyaf yn y DU gyda dros 300,000 o aelodau. Rydym yn cael ein trefnu trwy'r gwasanaeth sifil ac asiantaethau'r llywodraeth gan ein gwneud yr undeb llafur gwasanaeth sifil mwyaf yn y DU. Rydym hefyd yn trefnu'n eang yn y sector |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | preifat fel rheol mewn meysydd sydd wedi'u preifateiddio |
| | RISE | Ann Williams | www.learnwithrise.com | Rhwydwaith dysgu sydd yn gweithio mewn partneriaeth i annog dysgwyr i gael barn ar y cyfleusterau a'r ddarpariaeth sydd ar gael iddynt. Mae Partneriaeth RISE yn cynnwys pawb sydd ynghlwm ag addysg oedolion a dysgu gydol oes ar draws pum sir Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen. Mae rhwydwaith o Ganolfannau Dysgu wedi'u sefydlu ac mae pobl broffesiynol yn gweithio gyda dysgwyr i sicrhau bod Llais Dysgwyr wrth galon RISE |
| | Tinopolis Rhyngweithiol Cyf | Joel Williams | www.tinopolisinteractive.com | Mae Tinopolis Rhyngweithiol yn rhan o'r grŵp o gwmnïau Tinopolis ccc. Rydym yn adeiladu ac yn cyflwyno atebion Dysgu a Chyfryngau Newydd creadigol. Mae creadigrwydd, ansawdd, dibynadwyaeth a rhagoriaeth technegol wrth galon popeth a wnawn |
| | Race Equality First | Alisia Zelesinska a Marta Bzikot | www.refweb.org.uk | Mae Race Equality First yn elusen annibynnol ac yn gyngor cydraddoldeb hil. Rydym yn gweithio yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg i hyrwyddo cydraddoldeb hil. Rydym yn cynnig |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | ystod o wasanaethau yn cynnwys cyngor cyfrinachol a chefnogaeth am ddim i ddioddefwyr gwahaniaethu ar sail hil/aflonyddwch hiliol. Rydym hefyd yn cynnig cyngor, hyfforddiant a gwybodaeth yn ymwneud â chyfartaleddau ac amrywiaeth. Mae ein haelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o grwpiau cymunedol, cyrff statudol a gwirfoddol ac unigolion. |